

# Cyngor Caerdydd

## Cynnig Ardoll Ymwelwyr

### Mawrth 2025



## Cynnwys

<b>1. Y Cynnig Ardoll.....</b>	<b>3</b>
<b>2. Incwm Ardoll Drafft .....</b>	<b>4</b>
<b>3. Defnydd Arfaethedig o'r Ardoll.....</b>	<b>9</b>
<b>4. Sefydlu Fforwm Partneriaeth Ardoll Ymwelwyr .....</b>	<b>12</b>
<b>5. Rôl y Fforwm Partneriaeth Ardoll Ymwelwyr.....</b>	<b>14</b>
<b>6. Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth UKHospitality .....</b>	<b>16</b>
<b>7. Proses Gosod Cyllideb .....</b>	<b>17</b>
<b>8. Adroddiadau Blynyddol .....</b>	<b>18</b>
<b>9. Cyfathrebu ac Ymgysylltu (Gweithredu) .....</b>	<b>20</b>
<b>10. Asesiad Effaith Lleol .....</b>	<b>21</b>
<b>11. Effaith ar Gydraddoldeb.....</b>	<b>30</b>
<b>12. Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant .....</b>	<b>41</b>
<b>13. Effaith ar y Gymraeg.....</b>	<b>42</b>
<b>14. Asesiad Lles a Chenedlaethau'r Dyfodol .....</b>	<b>44</b>

# 1. Y Cynnig Ardoll

Bydd Cyngor Caerdydd yn ceisio cyflwyno Ardoll Ymwelwyr ar gyfer pob llety ac arosiadau cymwys fel yr amlinellir yn Neddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) etc. (Cymru) 2025 o fewn ffin yr awdurdod lleol o 1 Ebrill 2027. Byddai hyn yn cynnwys yr holl ddarparwyr llety y mae'n ofynnol iddynt fod wedi'u cofrestru ar y gofrestr genedlaethol o ddarparwyr llety ymwelwyr.

Codir ardoll ymwelwyr y pen y noson. Bydd yr ardoll yn cael ei chasglu gan y darparwr llety. Bydd y cyfraddau ardoll fel a ganlyn:

Math o Lety	Cost (y pen, fesul noson)*
Lleiniau gweryslla ac ystafelloedd a rennir (fel hosteli ac ystafelloedd cysgu)	£0.75
Pob math arall o lety ymwelwyr	£1.30

\*Mae'r Ardoll Ymwelwyr yn ddarostyngedig i Dreth ar Werth (TAW). Os yw darparwr llety wedi'i gofrestru ar gyfer TAW, rhaid iddo ychwanegu TAW cyfradd safonol (20% yn y DU) i'r swm a gesglir ar gyfer yr ardoll.

## Eithriadau

Ni fyddwch yn talu'r ardoll ymwelwyr os ydych chi:

- o dan 18 oed ac yn aros mewn llain safle gweryslla neu mewn ystafelloedd a rennir (fel hostel neu ystafelloedd cysgu);
- yn aros am fwy na 31 noson mewn un archeb; ac
- mewn tai brys neu dros dro a drefnwyd gan y Cyngor lleol.

## Ad-daliadau

Mae'r bobl ganlynol yn gymwys i wneud cais am ad-daliad gan Awdurdod Cyllid Cymru:

- Pobl anabl sy'n talu costau ardoll ychwanegol pan fyddant yn cael eu hebrwng gan ofalwr; a
- phobl sy'n ffoi rhag trais domestig.

## 2. Incwm Ardoll Drafft

### Dull gweithredu

Defnyddiwyd ystod o ffynonellau data i amcangyfrif incwm cychwynnol yr ardoll ar gyfer Caerdydd. Mae'r data hwn yn seiliedig ar y ffynonellau data canlynol:

- Data STEAM a ddarperir ar gyfer Caerdydd;
- Data STR ar gyfer Caerdydd ar gapasiti a deiliadaeth gwestai;
- Crynodeb Llywodraeth Cymru o ddata stoc gwelyau Cymru;
- Arolwg Deiliadaeth Llety Cymru;
- Data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ar lety byrdymor; a
- Data Airbtics ar stocrestrau a deiliadaeth Airbnb.

Mae'r awdurdod lleol yn defnyddio data STEAM ar gyfer ei adroddiadau monitro perfformiad. Fodd bynnag, ystyriwyd ei bod yn ddoeth cynnal dadansoddiad pellach i sicrhau bod y data sy'n cael ei ddefnyddio yn briodol wrth bennu lefel gyffredinol yr incwm y byddai'r ardoll yn ei chodi. Yn benodol ystyriwyd hyn oherwydd:

- Mae'r holl ddata yn parhau i fod yn seiliedig ar wybodaeth sampl ac yn destun gwallau;
- Y gallu i wirio amcangyfrifon gan ddefnyddio dulliau amgen; ac
- Ystyriaeth o'r effaith ar feysydd fel eithriadau Ardoll.

Dylid nodi, fodd bynnag, fod data STEAM yn gadarn ac yn ddibynadwy.

### Ymwelwyr sy'n Aros Dros Nos

Mae STEAM yn broses modelu effaith economaidd twristiaeth sy'n mesur twristiaeth o'r gwaelod i fyny, drwy ei defnyddio o ddata ochr gyflenwi leol a pherfformiad twristiaeth a chasglu data arolygon ymwelwyr. Mae STEAM yn gallu darparu allbynnau cadarn ar amrywiaeth o lefelau daearyddol ac, fel y cyfryw, mae wedi'i fabwysiadu i'w ddefnyddio ledled y Deyrnas Unedig a thramor gan fyrddau twristiaeth, awdurdodau lleol, asiantaethau datblygu rhanbarthol, awdurdodau parciau cenedlaethol, a llawer o sefydliadau sector cyhoeddus a phreifat eraill.

Mae STEAM yn meintoli effaith economaidd lleol twristiaeth, o ymwelwyr sy'n aros dros nos ac ymwelwyr dydd, trwy ddadansoddi a defnyddio amrywiaeth o fewnbynnau gan gynnwys niferoedd atyniadau ymwelwyr, stoc gwelyau llety i dwristiaid, presenoldeb mewn digwyddiadau, lefelau deiliadaeth, tariffau llety, ffactorau macroeconomaidd, lefelau gwariant ymwelwyr, lefelau defnydd trafndiaeth a lluosyddion economaidd sy'n benodol i dwristiaeth. Mae STEAM yn defnyddio'r data mewnbwn uchod i lunio cyfres o ddadansoddiadau effaith, sy'n ymwneud â phedwar math allweddol o ymwelwyr:

- Aros mewn Llety â Gwasanaeth
- Aros mewn Llety heb Wasanaeth
- Aros gyda Ffrindiau a Pherthnasau
- Ymwelwyr Diwrnod

O fewn y model, mae'r mathau o ymwelwyr uchod wedi'u rhannu ymhellach yn is-gategoriâu defnydd llety a, lle y bo angen, is-fathau o ymwelwyr dydd neu ymwelwyr sy'n Aros gyda Ffrindiau a Pherthnasau. Mae hyn yn caniatáu i'r model sicrhau bod ei allbynnau yn

adlewyrchu'r gwahaniaethau yn y cyflenwad a'r defnydd o wasanaethau twristiaeth rhwng gwahanol fathau o fusnes twristiaeth.<sup>1</sup>

Ar gyfer Caerdydd, mae data ar gael ar hyn o bryd ar gyfer 2023. Mae hyn yn cynrychioli cyfnod ôl-COVID-19 sy'n cael ei ystyried yn briodol ar gyfer modelu incwm posib o'r Ardoll Ymwelwyr. Darperir data isod sy'n amlinellu'r data diweddaraf yn ogystal â lefelau ymwelwyr cyn COVID-19. At ddibenion y dadansoddiad, crynhowyd y ffigurau llety â gwasanaeth a llety heb wasanaeth. Mae hyn yn rhoi ffigur o 3.4 miliwn o ddiwrnodau ymwelwyr sy'n aros dros nos.

### Data STEAM

Diwrnodau ymwelwyr sy'n aros dros nos (m) STEAM	2018	2019	2020	2021	2022	2023
Llety â Gwasanaeth	2.6	2.6	0.8	1.3	2.4	2.5
Llety heb Wasanaeth	0.7	0.9	0.4	0.6	0.9	0.9
Aros gyda Ffrindiau a Pherthnasau	1.3	1.3	0.3	0.4	1.3	1.4
<b>Diwrnodau Ymwelwyr sy'n Aros Dros Nos</b>	<b>4.6</b>	<b>4.8</b>	<b>1.5</b>	<b>2.3</b>	<b>4.6</b>	<b>4.7</b>
<b>Llety â gwasanaeth a llety heb wasanaeth</b>	<b>3.3</b>	<b>3.5</b>	<b>1.2</b>	<b>1.9</b>	<b>3.2</b>	<b>3.4</b>

Ffynhonnell: STEAM

Mae STR yn gwmni data lletygarwch sy'n casglu ac yn darparu data perfformiad gwestai i'r diwydiant byd-eang ar gyfer meincnodi a gwneud penderfyniadau strategol. Mae'n casglu gwybodaeth am gyflenwad a galw, megis deiliadaeth a refeniw, o nifer fawr o westai ledled y byd. Ar gyfer Caerdydd, roedd eu data ar gyfer 2023 yn awgrymu cyfanswm o 6,342 o ystafelloedd. Roedd hefyd yn amlinellu deiliadaeth gyfartalog ar gyfer y flwyddyn o 76%. Tybir dros 365 diwrnod o'r flwyddyn, mae hyn yn awgrymu cyfanswm nifer o archebion ystafelloedd o 1,752,303.

### Data STR

	Blwyddyn hyd yma - Rhagfyr 2024		
	% Deiliadaeth	Ystafelloedd (Cyfrifiad)	Sampl
<b>Caerdydd</b>	76	6,342	5,304

Ffynhonnell: STR

Gellir gwneud nifer o ragdybiaethau ynglŷn â'r gyfradd gyfartalog o ddeiliadaeth fesul ystafell. At ddibenion cyfrifo amcangyfrif o incwm Ardoll, cymhwyswyd ffigur ceidwadol o 1.5 o bobl fesul ystafell. Mae hyn wedi'i seilio'n fras ar y rhagdybiaethau canlynol:

- Rheol gyffredinol fyd-eang/y diwydiant: 1.6–2.2 o bobl fesul ystafell a feddiannwyd.
- Gwestai busnes / trefol yn ystod yr wythnos: ~1.1–1.6 o bobl fesul ystafell a feddiannwyd (teithwyr sengl yn dominyddu).
- Gwestai hamdden/cyrchfannau / penwythnosau neu wyliau: ~ 1.8–2.2 o bobl fesul ystafell a feddiannwyd (cyplau a theuluoedd).
- Eiddo arhosiad estynedig / teuluol: gall fod yn fwy na 2.2 o bobl fesul ystafell a feddiannwyd pan fydd ystafelloedd neu ystafelloedd teuluol yn gyffredin.

<sup>1</sup> <https://www.globaltourismsolutions.co.uk/steam-model>

Yn seiliedig ar y ffigurau hyn, mae'n darparu lefel amcangyfrifedig o arosiadau ymwelwyr mewn gwestai o 2.6m.

### Llety byrdymor y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn cyhoeddi data awdurdodau lleol ar gyfer cyfanswm nifer y nosweithiau gwesteion mewn llety byrdymor. Mae'r tabl isod yn amlinellu'r data chwarterol sy'n crynhoi i ffigur blynyddol o 618,980 ar gyfer 2024.

#### Nifer y nosweithiau gwesteion mewn llety byrdymor Swyddfa Ystadegau Gwladol

	<b>C1 2024</b>	<b>C2 2024</b>	<b>C3 2024</b>	<b>C4 2024</b>
Caerdydd	125,180	148,730	202,200	142,870

Ffynhonnell: Dadansoddiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol o ddata Airbnb, Booking.com ac Expedia Group.

Gan fod y data hwn yn gyfrif gwirioneddol, mae'n awgrymu bod cyfanswm nifer yr ymwelwyr sy'n aros dros nos mewn llety byrdymor yn 0.6m.

### Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi data ar nifer y gwelyau drwy ei arolygon Stoc Gwelyau Llety. Mae'r arolygon wedi'u hariannu ar y cyd a'u cynnal yn unol â dull safonol (gan ddefnyddio holiaduron a diffiniadau safonol). Mae ffigurau stoc gwelyau yn rhoi uchafswm nifer y gwelyau, er y gall rhai sefydliadau fod ar gau neu ar gau'n rhannol ar adegau penodol yn ystod y flwyddyn, felly nid yw pob ystafell, uned neu wely sydd wedi'u cyfrif ar gael bob amser. Efallai y bydd cartrefi sydd wedi'u gosod dros dro, neu ystafelloedd preifat unigol mewn cartrefi preifat, (h.y. eiddo rhent byrdymor ar wefannau fel Airbnb) yn cael eu cyfrif yn anghyson yn y data stoc gwelyau hwn oherwydd natur amrywiol y cyflenwad.

Dangosodd y data ym mis Mehefin 2022 gyfanswm o 10,767 o welyau â gwasanaeth, gyda nifer gymharol fach o welyau hunan-arlwy. Sylwer bod hyn yn wahanol i'r nifer o ystafelloedd a ddarperir gan STR. Er mwyn trosi hyn yn nifer yr ymwelwyr sy'n aros dros nos, mae data deiliadaeth STR wedi'i gymhwyso trwy gydol y flwyddyn, ac mae hyn yn darparu ffigur o 3.0m o ymwelwyr sy'n aros dros nos.

#### Nifer y gwelyau fesul categori llety yn ôl awdurdod lleol 2022

Ardal	<b>Llety â Gwasanaeth</b>	<b>Hunan-arlwy</b>	<b>Carafán / Gwersylla</b>	<b>Hostel</b>	<b>Cyfanswm</b>
Caerdydd	10,767	620	130	5,858	17,375

Ffynhonnell: Crynodeb o ddata stoc gwelyau Cymru: sefyllfa ym mis Mehefin 2022

Ar gyfer llety hunan-arlwy a hosteli, defnyddiwyd dull tebyg, ond cymhwyswyd lefelau deiliadaeth cyfartalog a amlinellir yn Arolwg Llety Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn awgrymu ffigur o 0.1m a 0.9m ar gyfer ymwelwyr sy'n aros dros nos.

### Ymchwil Ychwanegol

Mae ymchwil pellach wedi'i wneud i gadarnhau data llety byrdymor o ffynonellau data masnachol. Mae'r wefan <https://airbtics.com/> yn darparu data ar gyfer defnydd Airbnb yng Nghaerdydd, ac yn nodi cyfanswm o 1,757 o restrau gweithredol a chyfradd deiliadaeth o 59%. Yn seiliedig ar y data hwn, a rhagdybiaeth o 1.5 o bobl fesul arhosiad, mae hyn yn darparu ffigur

cyffredinol o 567,555 o ddiwrnodau ar gyfer ymwelwyr sy'n aros. Mae hyn yn cyd-fynd â data llety byrdymor y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

### Data Airbnb ar gyfer Caerdydd

Rhestrau gweithredol	1,757
Cyfradd deiliadaeth	59%
Ymwelwyr sy'n Aros Dros Nos (rhagdybiaeth)	1.5
Nosweithiau Ymwelwyr sy'n Aros Dros Nos	567,555

Ffynhonnell: <https://airbtics.com/>

### Amcangyfrifon o'r Ardoll

Yn seiliedig ar y data a amlygwyd uchod, datblygwyd 3 amcangyfrif craidd:

- Data sy'n seiliedig ar arolwg llety Llywodraeth Cymru;
- Data sy'n seiliedig ar STR; a
- Data sy'n seiliedig ar STEAM.

Mae pob un o'r ffynonellau data hyn wedi'u hystyried, lle y bo hynny'n briodol, i gyfrif am arosiadau ychwanegol. Yn benodol, mae data STR sy'n seiliedig ar westai, wedi'i ymestyn â data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ar lety byrdymor. Mae ffigur hefyd wedi'i gymhwyso i gyfrif am eithriadau. Mae hyn yn cael ei ystyried yn geidwadol, ac mae ffigur arbennig o uchel wedi'i gymhwyso i hosteli.

Mae ffigur tybiedig hefyd wedi'i gynnwys ar gyfer costau gweinyddu a chasglu ACC. Mae ffigur o 7.5% a 10% wedi'u cymhwyso. Fodd bynnag, dylid nodi y bydd pob parti yn ceisio lleihau'r costau cyffredinol hyn, ac ystyrir hyn yn amcangyfrif ceidwadol.

Mae'r amcanestyniadau'n awgrymu cyfanswm incwm yr Ardoll rhwng £3.6m a £3.9m. Sylwer bod y ffigurau hyn yn seiliedig ar gyfres o ragdybiaethau. Felly, byddai'n cael ei ystyried yn ddoeth cynllunio ar gyfer amlen wariant o £3.5m i £4.0m.

### Amcangyfrifon Incwm Ardoll

	Arosiadau ymwelwyr (m)	Cyfradd dybiedig	Eithriadau	Amcangyfrifedig Ardoll	Gweinyddol	Gweinyddol (uchafswm)	Amcangyfrifedig Ardoll Leol
Llety â gwasanaeth a hunan-arlwyo LLC	3.1	1.3	5%	£3.9m	7.5%	10%	£3.6m
Hosteli LLC	0.9	0.75	50%	£0.4m	7.5%	10%	£0.3m
<b>Cyfanswm</b>	<b>4.1</b>			<b>£4.2m</b>			<b>£3.9m</b>

Data Llety â gwasanaeth 2024 STR	2.6	1.3	5%	£3.2m	7.5%	10%	£3.0m
Llety byrdymor y Swyddfa Ystadegau Gwladol	0.6	1.3	20%	£0.6m	7.5%	10%	£0.5m
Hosteli LLC	0.9	0.75	50%	£0.4m	7.5%	10%	£0.3m
<b>Cyfanswm</b>	<b>4.1</b>			<b>£4.2m</b>			<b>£3.9m</b>

Data STEAM 2023	3.4	1.3 (90%) 0.75 (10%)	8%	<b>£3.9m</b>	7.5%	10%	<b>£3.6m</b>
<b>Cyfanswm</b>	<b>3.4</b>			<b>£3.9m</b>			<b>£3.6m</b>

Ffynhonnell: Dadansoddiad Cyngor Caerdydd

Ar gyfer blwyddyn gyntaf yr Ardoll, amcangyfrifir y byddai cyfanswm o £3.5m yn cael ei godi. Mae hyn yn seiliedig ar ragdybiaethau ceidwadol, a disgwylir iddo gynyddu, a darperir amcangyfrif dangosol o incwm blynyddol isod. Mae hyn yn seiliedig ar ragdybiaeth y bydd agoriad yr arena newydd yn y ddinas yn arwain at gynnydd sylweddol mewn arosiadau.

**Cyllideb Ardoll Arfaethedig 2026/27 i 2031/32**

<b>2026/27</b>	<b>2028/29</b>	<b>2029/30</b>	<b>2030/31</b>	<b>2031/32</b>
£3.5m	£3.75m	£4.0m	£4.0m	£4.0m

### 3. Defnydd Arfaethedig o'r Ardoll

#### Yr hyn y gellir defnyddio'r Ardoll ar ei gyfer:

Y dull ar gyfer yr ardoll ymwelwyr yw y bydd yn cael ei neilltuo at ddibenion 'rheoli a gwella cyrchfannau'. Ystyr rheoli a gwella cyrchfannau yw unrhyw un o'r canlynol:

- lliniaru effaith ymwelwyr;
- cynnal a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg;
- hyrwyddo neu gefnogi twf economaidd cynaliadwy twristiaeth a mathau eraill o deithio;
- darparu, cynnal a gwella seilwaith, cyfleusterau a gwasanaethau i'w defnyddio gan ymwelwyr (p'un a ydynt hefyd i'w defnyddio gan bobl leol ai peidio).

Mae'r ddeddfwriaeth yn nodi bod yn rhaid i awdurdodau lleol roi manylion ar ddiwedd y flwyddyn ariannol mewn cyhoeddiad sy'n nodi sut mae refeniw o'r ardoll ymwelwyr wedi'i ddyrannu at ddibenion rheoli a gwella cyrchfannau.

#### Ein Dull Gweithredu

Mae Cynllun Corfforaethol y Cyngor yn ymrwmo i weithio gyda phartneriaid fel Llywodraeth Cymru a Caerdydd AM BYTH i gefnogi'r sectorau manwerthu a lletygarwch drwy ddatblygu cynigion ar gyfer cyflwyno Ardoll Dwristiaeth, mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid allweddol. Y farn yw os cyflwynir ardoll, dylai fod ar y sail bod y cyllid yn mynd tuag at gefnogi'r sector – ac yn benodol, cefnogi mwy o arosiadau ymwelwyr. Byddwn yn ymgysylltu â'r sector wrth fwrw ymlaen ag unrhyw gynigion, yn ogystal â chynnal yr ymgynghoriad angenrheidiol.

Mae Pwyllgor Craffu'r Economi a Diwylliant y Cyngor eisoes wedi ymgysylltu â'r sector fel rhan o adroddiad cychwynnol sy'n edrych ar yr Ardoll, ac mae'n nodi'r angen i sicrhau llywodraethu, cyfathrebu a monitro a gwerthuso da wrth fwrw ymlaen ag unrhyw gynigion.

Fel rhan o hyn, byddwn yn dod â fforwm ynghyd a fydd yn hysbysu ac yn adolygu sut mae'r arian yn cael ei wario. Byddem hefyd yn chwilio am gymorth gan y sector i sicrhau nad yw cyllid arall – yn benodol cyllid Llywodraeth Cymru – yn cael ei ddadleoli. Rydym yn cydnabod bod baich yr ardoll ar westai ac ymwelwyr â gwestai – ein barn ni yw bod angen i ni weithio gyda gwestai i wneud yn fawr o'i heffaith – a thrwy wneud hynny gallwn hefyd gynyddu'r swm y mae'r ardoll yn ei ddwyn i mewn.

#### Y Weledigaeth ar gyfer Defnyddio'r Ardoll

Y weledigaeth gyffredinol ar gyfer defnyddio'r Ardoll yw:

*“Cefnogi twf a chynaliadwyedd yr economi ymwelwyr yng Nghaerdydd, gyda'r nod penodol o gynyddu nifer yr ymwelwyr sy'n aros dros nos a'r ddeiliadaeth gyffredinol o lety drwy fuddsoddi mewn gweithgareddau sy'n cefnogi ac yn hyrwyddo'r economi ymwelwyr.”*

Trwy'r weledigaeth hon, cydnabyddir y dylai pob punt a wariwyd gyfrannu tuag at well economi ymwelwyr. Yn ogystal, ni fydd yr ardoll yn cael ei defnyddio i ariannu unrhyw wasanaeth statudol y Cyngor.

#### Amcanion

Wrth gyflawni'r weledigaeth hon, bydd yr Ardoll yn anelu at:

- Sefydlu rhaglen gyrchfan a marchnata sydd ag adnoddau da i ddenu mwy o ymwelwyr sy'n aros dros nos;
- Datblygu a chefnogi rhaglen ddigwyddiadau'r ddinas, gan adeiladu ar enw da'r ddinas fel cyrchfan ddigwyddiadau flaenllaw;
- Sicrhau bod Caerdydd yn parhau i fod yn gyrchfan groesawgar i ymwelwyr; a
- Cefnogi gweithgaredd sy'n denu mwy o bobl i aros yn y ddinas ac am gyfnod hirach.

### **Sut beth fyddai hyn i Gaerdydd?**

Fel y nodwyd, y bwriad fyddai defnyddio'r ardoll ar gyfer buddsoddiad a fyddai'n cefnogi'r gwaith o gynyddu nifer yr ymwelwyr sy'n aros dros nos. Gallai hyn orgyffwrdd â darpariaeth bresennol y Cyngor. Mae gweithgareddau enghreifftiol yn cynnwys:

**Hyrwyddo Lle** – marchnata a hyrwyddo Caerdydd fel cyrchfan i ymwelwyr, gallai hyn roi adnodd i alluogi ymgyrchoedd marchnata y tu hwnt i hyrwyddo digidol a chyfryngau cymdeithasol syml. Byddai hyn yn cynnwys cyllid ar gyfer timau Croeso Caerdydd a Chwrdd yng Nghaerdydd i ddisodli unrhyw adnoddau o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin a gollwyd. Byddai hyn hefyd yn cynnwys cyllid ar gyfer hysbysebu a brandio'n benodol.

**Seilwaith / Gwasanaethau Ymwelwyr** – potensial ar gyfer Canolfan Croeso, buddsoddiad pellach mewn gwasanaethau sylfaenol fel toiledau. Byddai hyn hefyd yn cynnwys meysydd fel dynodiadau llwybr, cysylltedd digidol, mapiau a chyngor.

**Digwyddiadau** – cymorth i ddenu a rheoli digwyddiadau mawr, e.e. cyllid uniongyrchol i'r costau sy'n gysylltiedig â diogelwch a chau ffyrdd, yn ogystal â gofynion seilwaith eraill ar gyfer digwyddiadau. Gallai hyn gynnwys cymorth penodol ar gyfer digwyddiadau mawr yn y ddinas, gan gynnwys cymhorthdal, yn ogystal â chefnogi rhaglen ddigwyddiadau a diwylliannol gyffredinol ar gyfer Caerdydd.

**Rheoli Lleoedd** – mwy o fuddsoddiad mewn rheoli canol y ddinas a glanhau yng nghanol y ddinas a Bae Caerdydd, gyda'r nod o sicrhau bod Caerdydd yn lân, yn ddiogel ac yn groesawgar. Gallai hyn hefyd gynnwys gwell rheolaeth o'r tir cyhoeddus. Byddai hyn yn cynnwys cyllid ar gyfer timau Wardeiniaid Canol y Ddinas i ddisodli unrhyw adnoddau o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin a gollwyd. Gallai hefyd gynnwys meysydd cymorth i economi'r nos yn y ddinas.

**Rheoli Cyrchfannau** – gwell rheoli cyrchfannau, gan gynnwys ehangu cynnig canolfan gonfensiynau ochr yn ochr â chyfleusterau newydd yng Nglanfa'r Iwerydd a Bae Caerdydd. Byddai hyn hefyd yn cynnwys gwaith i ddatblygu a gwerthu'r cynnig twristiaeth cyffredinol yn y ddinas, cydlynu gweithgareddau rhwng partneriaid a darparu dull pecyn i fusnesau a grwpiau sy'n dod i Gaerdydd.

**Cymorth Gweithwyr a Sector** – cymorth fel datblygu sgiliau mewn lletygarwch yn ogystal â chymorth busnes penodol arall ar gyfer y sector, a allai gynnwys cymorth grant bach neu fuddsoddiad arall. Gallai hyn gael ei gyflawni gan Wasanaeth i Mewn i Waith a'r tîm Cymorth Busnes. Gallai hyn hefyd gynnwys unrhyw faterion penodol i'r sector a allai fod angen buddsoddiad pwrpasol, gan gynnwys mesurau i wella cynaliadwyedd. Gallai'r gwaith hwn hefyd gynnwys datblygu gweithlu ehangach a chymorth lles.

**Rheoli Trafnidiaeth** – cymorth trafndiaeth perthnasol – e.e. cymorth targedig ar gyfer digwyddiadau mawr, cefnogi costau refeniw ar gyfer parcio a theithio sy'n gysylltiedig â digwyddiadau. Er na fyddai hyn yn ceisio cymhorthdal i drafndiaeth gyhoeddus, byddai'n ceisio

cefnogi gweithrediad didrafferth y rhwydwaith trafndiaeth pan fydd pwysau arbennig yn cael ei roi ar y system.

**Buddsoddiadau Cynnyrch** – cefnogi buddsoddiad mewn cynnyrch newydd a allai ddenu mwy o ymwelwyr sy'n aros dros nos. Gallai hyn amrywio o gefnogi gweithgareddau ychwanegol yn y ddinas, i gefnogi mewn meysydd lle mae'r enillion ar fuddsoddiad yn darparu arosiadau ychwanegol. Gallai hyn gynnwys helpu i ddenu buddsoddiad newydd i'r ddinas, gan gynnwys atyniadau a chyfleusterau.

Byddai cyllid hefyd wedi'i ddyrannu i weinyddu, ymgysylltu, monitro a gwerthuso. Fodd bynnag, bydd y Cyngor yn ceisio lleihau costau gweinyddu, ymgysylltu, monitro a gwerthuso.

### **Mesurau Diogelu Ychwanegedd**

Wrth weithredu'r Ardoll, tynnodd y sector sylw at yr angen i ddarparu mesurau diogelu ychwanegol ar gyfer ychwanegedd. Er mwyn sicrhau bod cyllid yn cael ei ddefnyddio ar gyfer gweithgareddau ychwanegol, bydd yna ymrwymiad:

- Na fyddai'r Ardoll yn cael ei ddefnyddio ar gyfer unrhyw weithgaredd y mae gan y Cyngor ddyraniad cyllideb presennol.
- Byddai'r Fforwm Partneriaeth Ardoll Ymwelwyr yn chwarae rhan weithredol wrth asesu gwariant arfaethedig ar gyfer ychwanegedd.
- Pe na bai'r Ardoll yn gweld cynnydd yn nifer yr ymwelwyr dros gyfnod o 5 mlynedd, byddai'n destun ystyriaeth awtomatig gan y Cyngor.

## 4. Sefydlu Fforwm Partneriaeth Ardoll Ymwelwyr

Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol sy'n cyflwyno ardoll yn eu hardal sefydlu Fforwm Partneriaeth Ardoll Ymwelwyr ar gyfer trafod materion sy'n ymwneud â'r ardoll yn ardal y Cyngor. Yn benodol, bydd y fforwm yn rhoi gwybodaeth a chynghor i'r Cyngor ar sut y gellir defnyddio elw'r ardoll at ddibenion rheoli a gwella cyrchfannau yn ardal y Cyngor.

Dylai barn y fforwm lywio'r broses benderfynu ynghylch ailfuddsoddi enillion yr ardoll, a rhaid i Gyngor roi sylw i unrhyw wybodaeth neu gynghor a ddarperir yn y fforwm ar y materion uchod.

Rhaid i'r awdurdod lleol gymryd camau rhesymol i sicrhau bod y fforwm yn cynnwys personau sy'n gynrychiolwyr o:

- Sefydliadau sy'n cynrychioli busnesau sy'n gweithio ym maes twristiaeth, neu sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n gysylltiedig â thwristiaeth, yn ardal y prif Gyngor;
- Sefydliadau sy'n hyrwyddo neu'n hwyluso twristiaeth yn ardal y Cyngor; a
- Chyrff a chynrychiolwyr lleol perthnasol eraill sydd â diddordeb mewn twristiaeth neu lety ymwelwyr yn ardal y Cyngor, y mae'r Cyngor yn eu hystyried yn briodol.

### Aelodaeth arfaethedig o'r Fforwm Partneriaeth Ardoll Ymwelwyr

3 cynrychiolydd o Gymdeithas Gwestai Caerdydd  
1 cynrychiolydd o UK Hospitality Cymru  
1 cynrychiolydd o Economi'r Nos  
1 cynrychiolydd o'r Ardal Gwella Busnes  
1 cynrychiolydd o gyrff chwaraeon  
1 cynrychiolydd o Fwrdd Cerddoriaeth Caerdydd  
1 cynrychiolydd o'r sector digwyddiadau  
1 cynrychiolydd o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus  
1 cynrychiolydd o'r sector diwylliannol  
1 cynrychiolydd o faes trafniadaeth  
1 cynrychiolydd o lety byrdymor  
1 cynrychiolydd o weithredwyr twristiaeth  
1 x cynrychiolydd gweithlu

### Cynrychiolwyr y Cyngor

2 gynrychiolydd sy'n swyddogion o Gyngor Caerdydd  
1 Arweinydd o Gyngor Caerdydd  
1 Aelod Cabinet o Gyngor Caerdydd

Mae'r canllawiau ar gyfer yr Ardoll yn nodi y bydd y fforwm yn gwasanaethu fel llwyfan ar gyfer trafodaeth gydweithredol, ac yn darparu mewnwelediadau ac argymhellion gwerthfawr ar y ffordd orau o ddefnyddio'r arian a gynhyrchir gan yr ardoll. Bydd y dull hwn yn sicrhau dyraniad teg a thryloyw o adnoddau, gan adlewyrchu anghenion a blaenoriaethau'r sector twristiaeth a'r gymuned leol.

Sylwer y bydd angen sefydlu llywodraethu i sicrhau bod unrhyw wrthdaro buddiannau yn cael ei ystyried pan fydd y Fforwm yn gwneud argymhellion.

Byddai aelodaeth gychwynnol yn cael ei geisio ar sail enwebiad gan grwpiau cynrychioladol. Er enghraifft, byddai Cymdeithas Gwestai Caerdydd yn enwebu eu tri chynrychiolydd. Ar gyfer yr aelodau sy'n weddill, byddai proses ymgeisio a chyfweld yn cael ei sefydlu gan swyddogion y

Cyngor mewn ymgynghoriad ag aelodau cychwynnol y Fforwm Partneriaeth Ardoll Ymwelwyr. Byddai'r bwrdd hefyd yn ceisio sicrhau ei fod yn gynrychioliadol o boblogaeth y ddinas.

Bydd y Fforwm hefyd yn cynnwys cynrychiolydd gweithwyr. Fodd bynnag, byddai'r gynrychiolaeth hon yn canolbwyntio ar y defnydd o'r Ardoll i gefnogi datblygiad y gweithlu, ac nid fel modd o ymgysylltu ag aelodau'r Fforwm dros faterion gweithlu ehangach.

## 5. Rôl y Fforwm Partneriaeth Ardoll Ymwelwyr

Mae canllawiau'r Ardoll yn amlinellu y bydd y fforwm yn gwasanaethu fel llwyfan ar gyfer trafodaeth gydweithredol, ac yn darparu mewnwelediadau ac argymhellion gwerthfawr ar y ffordd orau o ddefnyddio'r arian a gynhyrchir gan yr ardoll. Bydd y dull hwn yn sicrhau dyraniad teg a thryloyw o adnoddau, gan adlewyrchu anghenion a blaenoriaethau'r sector twristiaeth a'r gymuned leol.

Mae hefyd yn nodi y bydd swyddogion a etholir yn lleol yn gyfrifol am y penderfyniad terfynol ynghylch sut y caiff refeniw ei ddyrannu, yn unol ag egwyddorion democrataidd.

Byddai'r Fforwm Partneriaeth Ardoll Ymwelwyr yn chwarae nifer o rolau allweddol:

- Cyngori ar y defnydd o'r Ardoll;
- Adolygu Adroddiad Blynyddol yr Ardoll;
- Cyngori ar ddatblygu Strategaeth Dwristiaeth y ddinas; a
- Chynghori ar roi Strategaeth Dwristiaeth y ddinas ar waith.

### **Cyngori ar y defnydd o'r Ardoll**

Mae'r canllawiau ar gyfer sefydlu Ardoll Ymwelwyr yn nodi:

Rhaid i awdurdodau lleol sy'n cyflwyno ardoll yn eu hardal sefydlu Fforwm Partneriaeth Ardoll Ymwelwyr ("fforwm") ar gyfer trafod materion sy'n ymwneud â'r ardoll yn ardal y Cyngor.

Yn benodol, bydd y fforwm yn darparu'r canlynol i'r Cyngor:

Gwybodaeth a chyngor ar sut y gellir defnyddio elw'r ardoll at ddibenion rheoli a gwella cyrchfannau yn ardal y Cyngor.

Gwybodaeth a chyngor ar gynnig gan y Cyngor (lle mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud rheoliadau) i:

- ychwanegu swm ychwanegol at yr ardoll;
- newid swm ychwanegol sydd wedi'i ychwanegu at yr ardoll; a/neu
- dynnu swm ychwanegol sydd wedi'i ychwanegu at yr ardoll.

Dylai barn y fforwm lywio'r broses benderfynu ynghylch ailfuddsoddi enillion yr ardoll, a rhaid i Gyngor roi sylw i unrhyw wybodaeth neu gyngor a ddarperir yn y fforwm ar y materion uchod.

Dylid nodi, fel rhan o'r cynnig hwn, nad yw'r Cyngor yn ceisio codi swm ychwanegol i'w ychwanegu at yr ardoll. Byddai unrhyw benderfyniad yn destun ystyriaeth bellach gan y Cabinet a'r Cyngor, lle barnwyd ei fod yn angenrheidiol gan ddeddfwriaeth, a byddai hefyd yn cael ei wneud mewn ymgynghoriad â'r sector.

### *Ymgynghoriad*

Byddai'r Fforwm Partneriaeth Ardoll Ymwelwyr yn rhan o'r broses ymgynghori wrth lunio cynlluniau gwariant ar gyfer yr Ardoll Ymwelwyr. Byddai hyn yn cynnwys nodi meysydd blaenoriaeth ar gyfer gwariant wrth lunio cynigion i'w hystyried.

### *Adolygiad ac Argymhelliad*

Byddai'r Fforwm Partneriaeth Ardoll Ymwelwyr yn ymgynghorydd ffurfiol ar y cynigion cyffredinol ar gyfer defnyddio'r Ardoll. Byddai hyn yn golygu y byddai unrhyw gynnig a gyflwynir i'r Cabinet i'w gymeradwyo yn cael ei gyflwyno i'r Fforwm Partneriaeth Ardoll Ymwelwyr yn gyntaf. Byddai'r Cabinet yn ystyried (er nad yn cytuno ar) unrhyw argymhellion gan y Fforwm.

### **Adolygu Adroddiad Blynyddol yr Ardoll**

Bydd yn ofynnol i'r Cyngor lunio adroddiad blynyddol y bydd yn ofynnol iddo fanylu ar:

- Gyfanswm y refeniw a gasglwyd gan yr awdurdod lleol;
- Refeniw net ar ôl didyniadau costau;
- Sut mae refeniwiau ardoll wedi'u dyrannu; ac
- Effaith y defnydd o'r ardoll.

Ceir rhagor o fanylion am yr adroddiad hwn yn yr adran ganlynol o'r ddogfen hon. Byddai'n ofynnol i'r Fforwm Partneriaeth Ardoll Ymwelwyr adolygu'r ddogfen hon cyn ei chyhoeddi.

### **Cynghori ar ddatblygu'r Strategaeth Dwristiaeth**

Cyn y taliad Ardoll cyntaf, bydd y Cyngor yn ymrwmo i ddatblygu Strategaeth Dwristiaeth. Bydd y strategaeth yn amlinellu sut y byddwn yn mynd i'r afael â'r materion canlynol sy'n ymwneud â thwristiaeth yn y ddinas:

- Llywodraethu
- Adnoddau
- Cynnyrch
- Seilwaith
- Marchnata a Chyfathrebu

Er y bydd yr holl faterion hyn yn dylanwadu ar y defnydd o'r Ardoll, bydd y strategaeth dwristiaeth hefyd yn siapio sut y bydd adnoddau eraill yn y ddinas yn cael eu defnyddio. Bydd Strategaeth Dwristiaeth ddrafft yn cael ei datblygu i'w hymgyngori yn 2026, a bydd y Fforwm Partneriaeth Ardoll Ymwelwyr yn chwarae rôl ffurfiol yn ei datblygiad.

### **Cynghori ar roi'r Strategaeth Dwristiaeth ar waith**

Byddai'r Fforwm Partneriaeth Ardoll Ymwelwyr hefyd yn chwarae rhan weithredol wrth gynghori ar roi'r Strategaeth Dwristiaeth ar waith.

### **Cyfathrebu'r defnydd o'r Ardoll**

Byddai'r Fforwm Partneriaeth Ardoll Ymwelwyr hefyd yn chwarae rhan weithredol wrth lunio ymarfer cyfathrebu sy'n ymwneud â defnydd a manteision yr Ardoll i ymwelwyr.

## 6. Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth UKHospitality

UKHospitality Cymru yw'r prif gorff masnach sy'n cynrychioli busnesau lletygarwch ledled Cymru, gan gynnwys gwestai, bwytaï, tafarndai, a darparwyr llety i ymwelwyr. Mae UKHospitality Cymru wedi nodi ei fod wedi ymrwymo i ymgysylltu'n adeiladol â Chyngor Caerdydd i sicrhau, lle mae Ardoll Ymwelwyr yn cael ei gweithredu, ei bod yn cael ei chynllunio a'i chyflwyno mewn ffordd sy'n:

- Yn sicrhau'r canlyniadau cadarnhaol mwyaf posibl i'r economi ymwelwyr leol;
- Yn darparu ychwanegedd, gan sicrhau bod refeniw yn darparu buddion newydd yn hytrach na galluogi dadleoli cyllid presennol;
- Cefnogi twf yn nifer yr ymwelwyr a'r defnydd ledled Caerdydd; ac
- Yn creu ac annog sefyllfa gyfartal i bob darparwr llety.

Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn sefydlu fframwaith a rennir ar gyfer cydweithio rhwng Cyngor Caerdydd ac UKHospitality Cymru wrth ddatblygu model Ardoll Ymwelwyr sy'n hyrwyddo twf economaidd cynaliadwy i Gaerdydd, o fudd i drigolion lleol, ac sy'n ymroddedig i gefnogi sectorau twristiaeth a lletygarwch y ddinas.

I'r dibenion hyn, drwy'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth, bydd UKHospitality Cymru yn gweithio'n agos gyda Chyngor Caerdydd i gefnogi'r gwaith o ddatblygu Ardoll Ymwelwyr sy'n cael ei hysbysu a'i llunio drwy ymgysylltu â'r sector twristiaeth a lletygarwch.

Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn cael ei ystyried yn arbennig o bwysig o ystyried yr angen i sicrhau bod yr Ardoll yn cael effaith gadarnhaol ar gymunedau yn y ddinas, a'r cysylltiad penodol â chyflogaeth. Mae'r dadansoddiad effaith economaidd yn dangos bod gan y sector orgynrychiolaeth o bobl ifanc a rhai grwpiau lleiafrifoedd ethnig. Er mwyn sicrhau nad yw'r grwpiau hyn yn gweld effaith negyddol, mae'n hanfodol bod y sector yn gweithio ochr yn ochr â'r Cyngor i sicrhau bod yr Ardoll yn arwain at ganlyniadau cyflogaeth cadarnhaol.

## 7. Proses Gosod Cyllideb

### Cam Cychwynnol – Datblygiad gan Swyddogion ac Ymgysylltu Cynnar (tua mis Medi)

- Mae swyddogion y cyngor yn paratoi dogfen drafod gynnar sy'n cynnwys cynigion cychwynnol.
- Cynhelir trafodaethau anffurfiol gyda'r Fforwm Partneriaeth Ardoll Ymwelwyr.
- Mae ymgysylltu ar wahân yn digwydd gyda gwestai a Gweithgor Lletygarwch y DU (UKH).
- Sesiynau briffio Cabinet Cyngor Caerdydd ar gynigion cychwynnol.

### Cyfnod y Gyllideb Ddrafft (Tachwedd)

- Mae swyddogion y Cyngor yn datblygu cyllideb Ardoll Ymwelwyr flynyddol ddrafft.
- Cyflwynir y drafft hwn i'r Fforwm Partneriaeth Ardoll Ymwelwyr ar gyfer mewnbwn a thrafodaeth strwythuredig.

### Ymgynghoriad a Mireinio (Chwefror)

- Mae'r Fforwm yn darparu ymateb ymgynghori ffurfiol i'r gyllideb ddrafft.
- Yn seiliedig ar yr holl adborth, mae swyddogion yn paratoi'r gyllideb flynyddol ddrafft derfynol.

### Craffu a Gwneud Penderfyniadau

- Mae'r Pwyllgor Craffu ar yr Economi a Diwylliant yn adolygu'r gyllideb ddrafft derfynol fel rhan o'i brosesau craffu cyn penderfynu.
- Cyngor Caerdydd, yng nghyfarfod y Cyngor Llawn, sy'n gwneud y penderfyniad terfynol, gan mai ef yw'r corff gwneud penderfyniadau terfynol.

Byddai'r gyllideb gyffredinol yn cael ei chynrychioli gan linellau cyllideb yn erbyn themâu allweddol gydag esboniad o weithgareddau yn erbyn y themâu hynny. Y bwriad yw sicrhau bod eglurder a gwelededd meysydd gwariant, heb gyfyngu'r gallu i ddefnyddio arian ardoll er budd y sector.

Byddai hyn yn cynnwys, er enghraifft, llinell gyllideb ar gymorth i farchnata a hyrwyddo, yn ogystal â manylion ar sut y gellid defnyddio'r cyllid hwnnw a manylion pellach ar sut y byddai'r sector yn rhan o'r defnydd.

Byddai unrhyw brosiectau neu gynigion gwerth uchel unigol hefyd yn cael eu cynnwys yn y gyllideb. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, cefnogaeth ymroddedig i ddigwyddiad. Dylid nodi, mewn rhai achosion, efallai y bydd angen ystyried cyfrinachedd masnachol, er enghraifft mae rhai digwyddiadau mawr yn gofyn am gytundeb peidio â datgelu. Yn yr amgylchiadau hyn, byddem yn rhannu gwybodaeth briodol ar sail gyfrinachol gyda'r Fforwm Partneriaeth Ardoll Ymwelwyr, gan sicrhau bod lefel briodol o fanylion yn cael ei ddarparu ar gyfer unrhyw ddogfennaeth gyhoeddus.

### Sicrwydd Cyllideb

- Byddai angen i unrhyw wariant gydymffurfio â holl brosesau caffael a chomisiynu'r Cyngor; Byddai angen ystyried Deddf Rheoli Cymhorthdal 2022 ar gyfer pob gwariant;
- Byddai'r holl wariant yn destun ystyriaeth gan dîm archwilio mewnol y Cyngor;
- Byddai unrhyw weithgaredd yn ddarostyngedig i ddirprwyaethau a phrosesau gwneud penderfyniadau'r Cyngor.

## 8. Adroddiadau Blynyddol

### Defnydd o Adnoddau Ardoll

Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol gyhoeddi adroddiad ar gyfer pob blwyddyn ariannol y mae wedi derbyn elw o ardoll. Rhaid i'r adroddiad:

- Fanylu ar sut mae refeniwiau o'r ardoll wedi'u dyrannu;
- Hysbysu pobl am gyfanswm y swm a gasglwyd ac a dderbyniwyd gan yr awdurdod lleol;
- Manylu ar y refeniwiau net a dderbyniwyd ar ôl i gostau gael eu hystyried; a
- Rhoi manylion am sut mae'r elw ar gyfer y flwyddyn dan sylw wedi'i wario ar reoli a gwella cyrchfannau.

Bob blwyddyn, bydd y Cyngor yn cyhoeddi adroddiad blynyddol sy'n rhoi manylion ar y materion hyn, yn ogystal ag asesiad pellach o berfformiad economi ymwelwyr, ac effaith y defnydd o adnoddau ardoll ymwelwyr.

### Monitro a Gwerthuso

Unwaith y bydd ardoll yn weithredol yn yr ardal leol, bydd angen i awdurdodau lleol asesu effaith yr ardoll yn eu hardal i sicrhau nad oes unrhyw effeithiau andwyol neu anfwriadol. Mae'r canllawiau yn awgrymu y gall awdurdodau lleol fonitro effaith eu penderfyniadau gwariant a'u defnydd o ardoll trwy amrywiaeth o ddulliau, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:

- Dadansoddiad cost a budd o brosiectau, rhaglenni a gweithgareddau a ariennir o refeniwiau ardoll;
- Arolygon, cyfweiliadau ac ymgysylltu â rhanddeiliaid (e.e. Adborth gan y fforwm partneriaeth);
- Dadansoddiad tueddiadau, gan ystyried niferoedd a llif ymwelwyr; a
- Dadansoddiad tueddiadau o ddarpariaeth llety ymwelwyr yn eu hardal leol.

Byddai angen ystyried dangosyddion ar lefel leol yn unol â phenderfyniadau gwariant.

#### *Adroddiad Blynyddol - Perfformiad*

Wrth gyflwyno'r adroddiad blynyddol, byddai'r Cyngor yn dwyn data ansoddol a meintiol ynghyd a fyddai'n rhoi trosolwg o berfformiad yr economi ymwelwyr yn y ddinas. Byddai'r adolygiad hwn yn cynnwys:

- Cyfres o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol;
- Unrhyw ddata perfformiad prosiect neu raglenni penodol;
- Arolwg ymwelwyr blynyddol i ddarparu manylion ar broffiliau a chanfyddiadau ymwelwyr; a
- Gwybodaeth ansoddol a ddarperir gan y Fforwm Partneriaeth Ardoll Ymwelwyr.

Cynigir ystyried y dangosyddion canlynol ar gyfer yr adroddiad blynyddol:

#### *Dangosyddion Perfformiad Allweddol*

#### *Prif Ddangosyddion Perfformiad Allweddol*

- Cyfanswm nifer yr ymwelwyr sy'n aros dros nos

### *Dangosyddion Perfformiad Allweddol Ychwanegol*

- Cyfraddau deiliadaeth gwestai;
- Cyfanswm gwariant ymwelwyr;
- Cyfanswm nifer yr ymwelwyr;
- Nifer yr ymwelwyr â chanol y ddinas; a
- Chyfanswm cyflogaeth yn yr economi ymwelwyr.

### *Data Rhaglen benodol*

Byddai data posib yn destun prosiectau penodol i'w cyflawni, ond byddai'n cynnwys data fel:

- Mynychwyr y digwyddiad;
- Mynychwyr digwyddiadau busnes;
- Cyrhaeddiad ac effaith y cyfryngau;
- Perfformiad ymgyrch farchnata; a
- Boddhad cwsmeriaid

### **Cyfathrebu Parhaus**

Wrth gyhoeddi Adroddiad Blynyddol, byddai'r Cyngor hefyd yn ceisio ymgysylltu a chyfathrebu'n rheolaidd â rhanddeiliaid yn ogystal â thalwyr ardoll i gyfathrebu'r defnydd o'r Ardoll.

## 9. Cyfathrebu ac Ymgysylltu (Gweithredu)

Bydd Cyngor Caerdydd yn arwain cyfathrebu ar gyflwyno'r Ardoll Ymwelwyr, gyda chefnogaeth Awdurdod Refeniw Cymru. Bydd dull cyfathrebu ar y cyd yn sicrhau bod darparwyr llety i ymwelwyr yng Nghaerdydd yn ymwybodol o'r ardoll, yn deall ac yn barod i gyfrif am yr ardoll.

Bydd Cyngor Caerdydd yn cyfathrebu diben a defnydd yr ardoll i'r cyhoedd, gan gynnwys ymwelwyr. Bydd Awdurdod Refeniw Cymru yn darparu pecyn cymorth ac asedau cyfathrebu i Gyngor Caerdydd a bydd yn cefnogi ymdrechion cyfathrebu Cyngor Caerdydd drwy rannu gwybodaeth trwy ei sianeli a'i rwydweithiau presennol.

Bydd Awdurdod Refeniw Cymru yn cyhoeddi canllawiau manwl ar LLYW.CYMRU ar gyfer darparwyr llety, gan esbonio sut mae darparwyr llety yn cyfrifo, ffeilio a thalu'r ardoll. Bydd hyn yn cynnwys canllaw cam wrth gam sy'n ymdrin â:

- A yw'r ardoll yn berthnasol i chi
- Pa gyfradd sy'n berthnasol i'ch llety
- pwy sy'n gyfrifol am dalu'r ardoll
- sut y bydd llwyfannau archebu ar-lein yn trin yr ardoll
- pa gofnodion sydd angen i chi eu cadw
- sut i gyfrifo swm yr ardoll sy'n daladwy i Awdurdod Refeniw Cymru
- p'un a oes angen i chi ffeilio a thalu Ardoll Ymwelwyr yn chwarterol ac yn flynyddol
- pryd y bydd eich dyddiad cau ffeilio cyntaf
- pryd i gofrestru eich llety ymwelwyr

Bydd Awdurdod Refeniw Cymru yn ymgysylltu â llwyfannau archebu a darparwyr systemau archebu i ddeall sut y gellid adeiladu casglu ardoll yn y broses archebu. Gall llwyfannau neu ddarparwyr meddalwedd gysylltu â darparwyr llety yn uniongyrchol ynglŷn â'u dull o ymdrin â'r ardoll.

Bydd gweithgaredd cyfathrebu yn cael ei raddio rhwng Ebrill a Medi 2026, gan ddarparu'r wybodaeth gywir i ddarparwyr llety ar yr adeg iawn. Mae enghreifftiau o weithgareddau wedi'u cynllunio yn cynnwys:

- diweddariadau rheolaidd trwy restr bostio Awdurdod Refeniw Cymru, y mae darparwyr llety yn cael eu hannog i gofrestru iddynt
- cyfathrebiadau uniongyrchol gan lwyfannau archebu a chyrrff masnach i ddarparwyr llety
- gweminarau ar y cyd a gynhelir gan Gyngor Caerdydd ac Awdurdod Refeniw Cymru i helpu darparwyr llety i baratoi
- Swyddi cyfryngau cymdeithasol ar draws sianeli Cyngor Caerdydd ac Awdurdod Refeniw Cymru
- allgymorth i grwpiau a rhwydweithiau cymunedol perthnasol

Bydd yr holl gyfathrebiadau ar gael yn Gymraeg a Saesneg.

## 10. Asesiad Effaith Lleol

### Effaith Economaidd

Gall cyflwyno Ardoll Ymwelwyr gael tair effaith sy'n gwrthdaro ar yr economi leol:

- Gall y prosiectau a'r rhaglenni a fuddsoddwyd ynddynt gefnogi twf yr economi ymwelwyr;
- Mae cyflwyno Ardoll â'r potensial i leihau'r galw am lety; ac
- Mae costau gweinyddu'r Ardoll yn cael effaith negyddol ar y sector twristiaeth.

Y nod cyffredinol ddylai fod sicrhau bod manteision y cynllun yn gorbwyso'r effeithiau negyddol. Mae hyn yn awgrymu:

- Dylai gwariant ganolbwyntio ar y meysydd hynny sy'n cynyddu twristiaeth;
- Dylid gosod lefel yr Ardoll, i sicrhau bod effeithiau ar y galw yn fach; ac
- Mae costau gweinyddol yn cael eu lleihau.

Ar y pwynt cyntaf, mae hefyd yn bwysig sicrhau bod yr Ardoll yn cyflawni ychwanegedd o ran gwariant.

### Pwysigrwydd yr Economi Ymwelwyr i Gaerdydd

Mae twristiaeth yn sector pwysig i Gaerdydd, gan ddarparu tua un o bob deg swydd, yn seiliedig ar ddiffiniad y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Mae hyn yn gymharol debyg i'r cyfartaleddau cenedlaethol, ond ar ei hôl hi mewn perthynas â rhai dinasoedd eraill yn y DU, fel Caeredin a Manceinion.

### **Cyflogaeth mewn Diwydiannau Twristiaeth (Diffiniad y Swyddfa Ystadegau Gwladol)**

Ardal	2024
Dinas Caeredin	13.9
Manceinion	12.6
Newcastle Upon Tyne	12.5
Lerpwl	12.5
Cymru	10.8
Prydain Fawr	10.7
Dinas Glasgow	10.0
Caerdydd	9.7
Bryste	9.7
Leeds	9.7
Birmingham	9.6
Sheffield	9.4
Prifddinas-Ranbarth Caerdydd	9.4
Nottingham	8.9

Ffynhonnell: Arolwg y Gofrestr Busnesau a Chyflogaeth

Mae'r ffigur hwn yn cyfateb i oddeutu 22,000 o swyddi yn y ddinas, sy'n ei wneud yn un o'r sectorau mwyaf yn ôl cyflogaeth, ac yn cyfateb i gyfanswm y swyddi ar draws pob sector mewn nifer o'r awdurdodau lleol llai yng Nghymru.

### Cyflogaeth mewn Diwydiannau Twristiaeth (Diffiniad y Swyddfa Ystadegau Gwladol)

Ardal	2024
Manceinion	57,000
Birmingham	54,000
Dinas Caeredin	51,000
Leeds	49,000
Dinas Glasgow	44,000
Lerpwl	36,000
Bryste	30,000
Newcastle Upon Tyne	25,000
Sheffield	25,000
Caerdydd	22,000
Nottingham	19,000

Ffynhonnell: Arolwg y Gofrestr Busnesau a Chyflogaeth

Mae lefelau cyffredinol cyflogaeth yn y sector hwn wedi aros yn sefydlog ers nifer o flynyddoedd yng Nghaerdydd, yn seiliedig ar ddata Arolwg y Gofrestr Busnesau a Chyflogaeth.

### Cyflogaeth mewn Diwydiannau Twristiaeth (Diffiniad y Swyddfa Ystadegau Gwladol)

Blwyddyn	Cyflogaeth
2015	22,000
2016	23,000
2017	21,000
2018	23,000
2019	22,000
2020	23,000
2021	22,000
2022	25,000
2023	24,000
2024	22,000

Ffynhonnell: Arolwg y Gofrestr Busnesau a Chyflogaeth

Mae golwg ehangach ar sectorau cysylltiedig hefyd wedi cynyddu pwysigrwydd twristiaeth. Wrth ystyried yr holl gyflogaeth mewn gwasanaethau ymwelwyr, sy'n cynnwys manwerthu, llety, bwyd, celf ac adloniant, mae bron 45,000 o bobl yn cael eu cyflogi yng Nghaerdydd. Mae hyn yn cynrychioli bron ddwywaith lefel y gyflogaeth yn yr un sectorau â'r awdurdod lleol mwyaf nesaf yng Nghymru, ac ychydig o dan draean o gyfanswm y gyflogaeth ar gyfer Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn yr un sectorau.

### Cyflogaeth mewn Diwydiannau sy'n Gysylltiedig â Thwristiaeth yn Ehangach 2023

Ardal	Manwerthu	Llety a Gwasanaethau Bwyd	Celfyddydau, adloniant, hamdden a gwasanaethau eraill	Cyfanswm
Caerdydd	17,000	16,000	10,000	43,000
Nottingham	21,000	14,000	8,000	43,000
Newcastle	14,000	18,000	10,000	42,000
Lerpwl	22,000	27,000	13,000	62,000
Manceinion	34,000	36,000	19,000	89,000
Caeredin	25,000	36,000	20,000	81,000
Glasgow	31,000	33,000	18,000	82,000
Bryste	18,000	22,000	11,000	51,000
Birmingham	40,000	41,000	22,000	103,000
Leeds	31,000	31,000	23,000	85,000
Sheffield	22,000	19,000	12,000	53,000
Prifddinas-Ranbarth Caerdydd	58,000	46,000	27,000	131,000

Ffynhonnell: Arolwg y Gofrestr Busnesau a Chyflogaeth

Fel cyfran mae hyn yn cynrychioli yn agosach at un o bob pump o swyddi yn y ddinas, ffigur sy'n cyfateb yn fras i lefelau cenedlaethol.

### Cyflogaeth mewn Diwydiannau sy'n Gysylltiedig â Thwristiaeth yn Ehangach 2023 – Canran o Gyfanswm Cyflogaeth

Ardal	Manwerthu	Llety a Gwasanaethau Bwyd	Celfyddydau, adloniant, hamdden a gwasanaethau eraill	Cyfanswm
Caerdydd	7.4	7.0	4.4	18.8
Nottingham	9.7	6.5	3.7	19.9
Newcastle	6.9	8.9	5.0	20.8
Lerpwl	7.6	9.3	4.5	21.4
Manceinion	7.4	7.9	4.2	19.5
Caeredin	6.7	9.7	5.4	21.8
Glasgow	6.9	7.4	4.0	18.3
Bryste	5.7	7.0	3.5	16.2
Birmingham	7.0	7.2	3.9	18.1
Leeds	6.1	6.1	4.5	16.7
Sheffield	8.1	7.0	4.4	19.5
Prydain Fawr	8.2	7.7	4.5	20.4
Prifddinas-Ranbarth Caerdydd	8.7	6.9	4.1	19.7

Ffynhonnell: Arolwg y Gofrestr Busnesau a Chyflogaeth

Mae elfen fawr o'r economi ymwelwyr hefyd yn gysylltiedig ag ymwelwyr sy'n aros dros nos. Yn gyffredinol, mae'r ddinas yn denu dros 20 miliwn o ymwelwyr blynyddol, y mae tua chwarter ohonynt yn ymwelwyr sy'n aros dros nos.

### Diwrnodau ymwelwyr (m) STEAM

CYFRAN O'R FARCHNAD	2012	2013	2014	2015	2016	2017	2018	2019	2020	2021	2022	2023
Ymwelydd sy'n Aros Dros Nos	3.84	3.92	3.98	4.05	4.12	4.49	4.61	4.80	1.51	2.27	4.56	4.75
Pob Math o Ymwelwyr	20.91	20.99	21.56	22.57	22.47	24.48	24.72	24.10	9.13	11.15	19.39	20.47

Ffynhonnell: STEAM

Fodd bynnag, wrth ystyried yr effaith economaidd, mae ymwelwyr sy'n aros dros nos yn ffurfio hanner y ffigur cyffredinol. Mae hyn yn tynnu sylw at effaith economaidd sylweddol uwch ymwelwyr sy'n aros dros nos o'i gymharu ag ymwelwyr dydd.

### Effaith Economaidd

CYFRAN O'R FARCHNAD		2012	2013	2014	2015	2016	2017	2018	2019	2020	2021	2022	2023
Ymwelydd sy'n Aros Dros Nos	£M	703	708	737	800	790	886	894	887	259	459	944	872
Pob Ymwelydd	£Bn	1.53	1.54	1.59	1.70	1.68	1.86	1.87	1.82	0.63	0.89	1.66	1.64

Ffynhonnell: STEAM

Trwy ddiffiniad, mae cyfran fawr o'r cyfraniad hwn yn cael ei arwain gan wariant llety, maes sydd wedi gweld twf eithaf cyson yn ystod y blynyddoedd diwethaf - er gwaethaf COVID-19. Mae'n werth nodi, fodd bynnag, bod ymwelwyr sy'n aros dros nos hefyd fel arfer yn gwario mwy mewn busnesau lleol eraill nag ymwelydd dydd ar gyfartaledd.

### Dosbarthiad Sectorol Effaith Economaidd - £Bn gan gynnwys TAW wedi'i fynegeo i 2023

	2012	2013	2014	2015	2016	2017	2018	2019	2020	2021	2022	2023
Llety	177	174	186	216	207	249	250	242	72	148	292	239
Bwyd a Diod	243	245	251	262	261	282	285	279	106	136	233	243
Hamdden	75	75	77	81	80	87	88	86	33	42	72	75
Siopa	208	210	215	224	224	240	241	236	85	109	197	208
Trafnidiaeth	155	155	160	167	166	180	181	176	66	82	143	151
Refeniw Uniongyrchol	856	859	889	949	939	1037	1045	1020	362	518	937	915
TAW	171	172	178	190	188	207	209	204	61	79	180	183
Gwariant Uniongyrchol	1027	1031	1066	1138	1127	1245	1255	1224	423	597	1117	1098
Gwariant Anuniongyrchol	505	507	525	561	555	612	616	600	207	293	548	538
CYFANSWM	1533	1537	1591	1699	1682	1857	1871	1824	630	891	1664	1635

Ffynhonnell: STEAM

Mae'r mwyafrif o ymwelwyr sy'n aros dros nos yn y ddinas hefyd yn aros mewn llety â gwasanaeth, gan gyfrif am 2.5 miliwn o'r 3.4 miliwn sy'n aros mewn llety y telir amdano.

### Diwrnodau ymwelwyr sy'n aros dros nos (m) STEAM

	2018	2019	2020	2021	2022	2023
<b>Llety â Gwasanaeth</b>	2.6	2.6	0.8	1.3	2.4	2.5
<b>Llety heb Wasanaeth</b>	0.7	0.9	0.4	0.6	0.9	0.9
<b>Aros gyda Ffrindiau a Pherthnasau</b>	1.3	1.3	0.3	0.4	1.3	1.4
<b>Diwrnodau Ymwelwyr sy'n Aros Dros Nos</b>	<b>4.6</b>	<b>4.8</b>	<b>1.5</b>	<b>2.3</b>	<b>4.6</b>	<b>4.7</b>
<b>Llety â gwasanaeth a heb wasanaeth</b>	<b>3.3</b>	<b>3.5</b>	<b>1.2</b>	<b>1.9</b>	<b>3.2</b>	<b>3.4</b>

Ffynhonnell: STEAM

Mae'r rhan fwyaf o stoc gwelyau'r ddinas hefyd mewn llety â gwasanaeth, wedi'i yrru yn bennaf gan westai mwy.

### Llety â Gwasanaeth 2023

	2023	
	Amcangyfrifedig	Gwelyau
<b>Cyfanswm Llety â Gwasanaeth</b>	<b>83</b>	<b>10,644</b>
<b>Gwestai â +50 ystafell</b>	<b>33</b>	<b>9,164</b>
<b>Gwestai â 11-50 ystafell</b>	<b>19</b>	<b>893</b>
<b>Gwestai â llai na 10 ystafell/eraill</b>	<b>31</b>	<b>346</b>

Ffynhonnell: STEAM

### Llety heb Wasanaeth 2023

	2023	
	Amcangyfrifedig	Gwelyau
<b>Cyfanswm Llety Heb Wasanaeth</b>	<b>26</b>	<b>8,932</b>
<b>Hunan-arlwy</b>	<b>25</b>	<b>4,994</b>
<b>Carafanau sefydlog/chalets</b>	<b>0</b>	<b>0</b>
<b>Carafanau teithiol/gwersylla</b>	<b>1</b>	<b>189</b>
<b>Airbnb</b>	<b>0</b>	<b>3,749</b>

Ffynhonnell: STEAM

Mae'r ddinas hefyd yn denu nifer sylweddol o ymwelwyr rhyngwladol, sy'n ei gosod yn yr 11<sup>eg</sup> safle yn y DU.

### Ymweliadau sy'n dod i mewn: tueddiadau yn ôl tref yn y DU (000au)

Safle	Tref/Dinas	2023	Tref/Dinas	2022
1	Llundain	20,277	Llundain	16,118
2	Caeredin	2,324	Caeredin	1,796
3	Manceinion	1,721	Manceinion	1,230
4	Birmingham	934	Birmingham	803
5	Lerpwl	900	Lerpwl	680
6	Glasgow	685	Glasgow	618
7	Bryste	569	Bryste	455
8	Rhydychen	450	Caergrawnt	440
9	Swydd Gaergrawnt	444	Rhydychen	425
10	Brighton/Hove	441	Brighton/Hove	339
11	<b>Caerdydd</b>	<b>313</b>	Leeds	289
12	Caerfaddon	313	Caerfaddon	273
13	Leeds	291	Newcastle	248
14	Inverness	285	Caerdydd	204
15	Caerefrog	276	Southampton	194
16	Crawley	221	Caerefrog	193
17	Nottingham	217	Nottingham	189
18	Aberdeen	216	Caerlŷr	180
19	Newcastle	209	Luton	165
20	Darllen	204	Inverness	165

Ffynhonnell: <https://www.visitbritain.org/research-insights/inbound-visits-and-spend-trends-uk-town> Ffynhonnell: <https://www.visitbritain.org/research-insights/inbound-visits-and-spend-trends-uk-town>

Mae'r dadansoddiad uchod yn tynnu sylw at bwysigrwydd presennol economi ymwelwyr Caerdydd, ond hefyd ei gallu i dyfu. Mae hefyd yn nodi'r effaith y mae ymwelwyr sy'n aros dros nos yn ei chael ar gyflogaeth leol.

#### Elastigedd y Galw

Mae Llywodraeth Cymru wedi llunio dadansoddiad o effaith ardollau ymwelwyr ar y galw am ymweliadau aros dros nos. Roedd hyn yn seiliedig ar ystod eang o astudiaethau rhyngwladol, a nodwyd y dylid trin y data yn ofalus. Mae casgliad y gwaith yn ailddatgan y rhesymeg bod y galw am dwristiaeth yn gostwng gyda chynnydd mewn prisiau, ond bod hyn yn gymharol anelastig. Mae hyn yn golygu, nad yw cynnydd cymharol mewn pris yn arwain at ostyngiad cymesur neu uwch yn y galw. Daeth nifer gyfyngedig o astudiaethau, a oedd yn seiliedig yn benodol ar ardollau ymwelwyr, i'r un casgliadau hefyd.

## Adolygiad tystiolaeth o elastigedd sy'n berthnasol i ardoll ymwelwyr yng Nghymru (Alma Economics ar gyfer Llywodraeth Cymru)

Lle canfuwyd tystiolaeth berthnasol, roedd amrywiad mawr ym maint amcangyfrifon elastigedd. Roedd achosion posib yr amrywiad hwn yn cynnwys gwahaniaethau mewn dulliau modelu, newidion esboniadol, parau cyrchfannau - marchnadoedd ffynhonnell, a'r data a ddefnyddiwyd gan yr astudiaeth. Argymhellir bod y canfyddiadau yn yr adroddiad hwn yn cael eu dehongli yn ofalus, o ystyried yr ansicrwydd cynhenid a'r diffyg eglurder ynghylch cyffredinol i Gymru.

Roedd amrywiad mawr ym maint yr amcangyfrifon, gyda'r galw am dwristiaeth naill ai'n elastig neu'n anelastig o ran pris, yn dibynnu ar yr astudiaeth dan sylw. Roedd diffyg cymhariaeth astudiaethau ar sail tebyg am debyg yn golygu nad oedd modd dod o hyd i unrhyw ffactorau clir i esbonio'r amrywiad hwn ar draws astudiaethau.

Ar draws y 23 astudiaeth a adolygwyd yn yr Asesiad Tystiolaeth Cyflym a ddarparodd amcangyfrifon rhifiadol o'r Elastigedd Pris y Galw ar gyfer twristiaeth, canfuwyd bod cyfrifiad o'r Elastigedd Pris y Galw canol-ystod cyfartalog ar draws yr holl astudiaethau yn fras unedol (-0.9), tra bod yr Elastigedd Pris y Galw canol-ystod canolrif ychydig yn is sef (-0.7).<sup>21</sup> Adroddodd y mwyafrif o astudiaethau (70%) Elastigedd Pris y Galw o faint llai nag un (galw anelastig) gyda'r gweddill (30%) yn adrodd Elastigedd Pris y Galw o faint mwy nag un (galw elastig).

O berthnasedd i'r ardoll ymwelwyr arfaethedig, canfuwyd gan ddwy astudiaeth fod llety yn gymharol anelastig o ran pris (-0.7); hynny yw, yn dangos llai o newid yn y galw pan gynyddodd prisiau o'i gymharu â nwyddau a gwasanaethau twristiaeth eraill. Dylid dehongli'r canlyniad hwn yn ofalus, fodd bynnag, o ystyried y nifer cyfyngedig o astudiaethau.

Yn ogystal â'r adolygiad academiaidd, awgrymodd arolwg o ddarpar ymwelwyr yng Nghymru y byddai'r mwyafrif o ymwelwyr yn parhau i wneud eu hymweliadau, er efallai y byddai lleiafrif yn dewis mynd i rywle arall.

### Ymateb i gyflwyno ardoll ymwelwyr yng Nghymru, ymhlith y rheini sy'n debygol iawn o fynd i Gymru ar wyliau, Canran

	%
Ni fyddai'n gwneud unrhyw wahaniaeth - byddwn i'n talu'r gost ychwanegol	50
Byddwn yn dal i fynd ar wyliau yn y gyrchfan hon ond yn 'cwtogi' ar wariant y daith	21
Byddwn i'n mynd i rywle arall ar wyliau	12
Byddwn i'n mynd i'r gyrchfan hon ar daith undydd yn hytrach na gwyliau	5
Ni fyddwn yn mynd ar daith o gwbl	4
Net: Cwtogi, mynd i rywle arall, peidio â mynd ar daith o gwbl, mynd ar daith undydd yn lle hynny	43
Net: Mynd i rywle arall, peidio â mynd ar daith o gwbl, mynd ar daith undydd yn lle hynny	21
Ddim yn gwybod/ansicr	7

Ffynhonnell: Ardoll Ymwelwyr – Barn Defnyddwyr a Thrigolion 2023

Yn gyffredinol, roedd barn y trigolion yn cael eu hystyried naill ai'n gefnogol neu ddim yn gadarnhaol nac yn negyddol. Yng Nghymru, roedd gan tua 30% o'r ymatebwyr i'r arolwg farn negyddol.

### **Barn ar ardoll yn yr ardal leol ei hun, Canran, Pob Ymatebydd**

	<b>Holl drigolion y DU</b>	<b>Trigolion Cymru</b>
Cadarnhaol	38	39
Ddim yn gadarnhaol na negyddol	23	20
Negyddol	28	30
Ddim yn gwybod/ansicr	11	11

Ffynhonnell: Ardoll Ymwelwyr – Barn Defnyddwyr a Thrigolion 2023

### Costau Busnes

Yr effeithiau busnes uniongyrchol yw:

- Yr amser sydd ei angen i wneud cais i gofrestru a rheoli unrhyw ddiwygiadau;
- Yr amser i brosesu a ffeilio ffurflen dreth i ACC (naill ai'n chwarterol neu'n flynyddol);
- Diweddarau systemau archebu neu systemau gwybodaeth rheoli eiddo;
- Costau ariannol cynghorwyr neu gyfrifwyr, os bydd darparwr yn dewis cyflogi neu ddefnyddio gwasanaethau parti arall i brosesu a ffeilio ffurflenni ar ei ran; a
- Chost ariannol yr ardoll ymwelwyr ei hun.

Bydd hyn yn amrywio yn ôl faint o ymwelwyr y mae darparwr yn ei dderbyn, a faint o eiddo llety ymwelwyr y maent yn eu gweithredu. Ar ben hynny, gall darparwyr ysgwyddo'r costau neu eu trosglwyddo i ymwelwyr, felly nid yw'n bosib pennu'r union gostau yn ôl darparwr.

Mae'r materion hyn i gyd fodd bynnag yn ymwneud â chost i fusnesau, a dylid gwneud gwaith i leihau eu heffaith.

Tynnodd yr ymgynghoriad sylw at bryderon penodol gan ddarparwyr llety mewn perthynas â chostau gweinyddol a baich gweithredu'r Ardoll. Yn ogystal, codwyd materion o niwed i enw da hefyd mewn perthynas â chodi tâl ar blant fel rhan o'r Ardoll, yn ogystal â'r broses ar gyfer ad-dalu gofalwyr pobl anabl.

Ymhellach at hyn codwyd bod pryderon ynghylch gwestai sy'n delio'n uniongyrchol â chwsmeriaid a'u hymateb i dalu'r Ardoll. O'r safbwynt hwn codwyd bod angen cyfathrebu bod yr Ardoll yn cael ei gosod o ganlyniad i benderfyniad y Cyngor, yn ogystal â sicrhau bod manteision yr Ardoll yn cael eu cyfathrebu.

Nododd yr ymarfer ymgynghori hefyd bryderon y gallai'r Ardoll gael effaith negyddol ar y galw o fewn y sector, a bod angen clir i sicrhau nad yw'r Ardoll yn arwain at lai o ymwelwyr sy'n aros. Pwysleisiodd rhanddeiliaid fod yn rhaid i economi ymwelwyr Caerdydd barhau i fod yn gystadleuol, a bod yn rhaid gweithredu unrhyw ardoll mewn ffordd sy'n osgoi tansilio sector sy'n cefnogi cyflogaeth, reffeniw treth a gwariant ehangach yng nghanol y ddinas.

Roedd y materion penodol a godwyd yn cynnwys:

- Effeithiau posibl ar feddiannaeth gwesty, yn enwedig yn ystod cyfnodau oddi ar y brig.
- Sensitifrwydd ymwelwyr domestig ac Ewropeaidd i gostau ychwanegol.
- Risg o symud y galw i gyrchfannau cystadleuol.
- Pwysigrwydd diogelu marchnadoedd canol wythnos a theithio corfforaethol.

- Pryderon am hyfywedd ariannol - gall referniw a ragwelir cael eu gorbwysu gan gostau gweithredu a chydymffurfio

I'r perwyl hwnnw mae'r angen i sicrhau bod yr Ardoll yn cael ei ddefnyddio i gefnogi'r galw am nosweithiau gwely yn y ddinas, y dylid ei benderfynu gyda'r sector.

#### Crynodeb

Mae'n amlwg, heb sicrhau bod yr Ardoll yn cael ei defnyddio er budd y sector, gallai fod effaith economaidd negyddol. Mae hyn felly yn awgrymu, wrth gyflwyno'r Ardoll, y dylid gwneud hyn mewn ffordd sy'n:

- Cefnogi twf y sector; ac yn
- Cydnabod bod cost weinyddol uniongyrchol i fusnesau, a bod potensial i archwilio sut y gall yr Ardoll liniaru hyn;
- Lleihau costau i fusnesau.

## 11. Effaith ar Gydraddoldeb

### Oedran

Mae dwy agwedd i'w hystyried gydag oedran:

- Yr effaith ar ymwelwyr
- Yr effaith ar y boblogaeth leol

O ran ymwelwyr, mae proffil ymwelwyr â Chymru yn awgrymu mai carfan ifanc yw hon yn gyffredinol. Mae hyn yn awgrymu, o ystyried bod grwpiau iau yn tueddu i gael incwm is, y gallai fod mwy o effaith ar boblogaethau iau.

### Canran y teithiau i Gymru 2023

16-24	25-34	35-44	45-54	55-64	65+
23%	29%	19%	11%*	12%*	5%**

Ffynhonnell: Ystadegau Twristiaeth Ddomestig Prydain Fawr: adroddiad blynyddol 2023 | LLYW.CYMRU

Sylwer: Lle mae ffigur yn cael ei ddilyn gan un seren, mae'r maint sylfaen yn is na 100, a chynghorir defnyddwyr i drin y ffigur hwn fel un dangosol. Lle mae ffigur yn cael ei ddilyn gan seren ddwbl, mae'r maint sylfaen yn is na 30, a chynghorir defnyddwyr i beidio â defnyddio'r amcangyfrif hwn.

Mae asesiad effaith Llywodraeth Cymru ar gyfer yr Ardoll yn nodi nad yw'r rheini o dan 18 oed wedi'u cynnwys yn y tâl cyfrifadwy ar gyfer yr ardoll ymwelwyr ar gyfer arosiadau â sgôr is. Mae hyn yn golygu na fydd yn rhaid iddynt dalu'r ardoll lle mae'n cael ei throsglwyddo gan ddarparwr, gan na fyddant yn cael eu cynnwys mewn cyfrifiadau ardoll (h.y. nid oes ardoll i'w throsglwyddo). Mae'r dadansoddiad hwn yn awgrymu y bydd y polisi hwn yn lliniaru effeithiau negyddol posib ar bobl ifanc, gan y gallai'r rheini o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is fod yn fwy tebygol o aros mewn llety ymwelwyr sy'n destun y gyfradd is, er nad oes unrhyw ddata yn cadarnhau hyn. Felly, gall effeithiau ar grwpiau economaidd-gymdeithasol is leihau gyda'r eithriad hwn o'r cyfrifiad ar gyfer arosiadau â sgôr is ar gyfer y rheini dan 18 oed. Er gwaethaf hyn, cododd yr ymarfer ymgynghori bryderon ynglŷn â'r ffaith y bydd tâl ar gyfer plant yn cael eu codi am y mwyafrif o arosiadau yn y ddinas.

Mae'r un asesiad effaith hefyd yn cydnabod bod y rheini sy'n cael eu cyflogi ym maes twristiaeth yn gyffredinol yn iau, gyda 38% o weithwyr ym maes twristiaeth rhwng 16 a 29 oed yn 2022, yn ôl data Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn awgrymu y byddai unrhyw effaith ar y sector o gyflwyno'r Ardoll yn effeithio ar bobl ifanc yn anghymesur. Cododd ymatebion ansoddol hefyd yr angen am ystyried datblygu'r gweithlu, sydd hefyd yn ymwneud â'r angen i sicrhau bod gan weithwyr sy'n dod i mewn i'r sector fynediad priodol at sgiliau a hyfforddiant. Byddai angen ystyried cefnogaeth y tu hwnt i'r Ardoll hefyd, ond mae'n tynnu sylw at y gallai fod adnoddau pwrpasol i gefnogi'r grŵp penodol hwn.

Roedd lefel gyffredinol y gefnogaeth i'r Ardoll yn tueddu i fod yn gryfaf ymhlith grwpiau oedran iau.

### *Prif ystyriaethau:*

*I bobl ifanc, mae'r brif effaith – ar ymwelwyr a thrigolion – yn ymwneud ag effaith gyffredinol yr Ardoll. Mae hyn yn awgrymu, i drigolion, ei bod yn hanfodol defnyddio'r Ardoll i sicrhau bod y*

*sector yn tyfu, ac nad yw'n arwain at unrhyw effaith negyddol ar weithwyr lleol. I ymwelwyr, mae'n hanfodol bod unrhyw effaith negyddol ar y cynnydd mewn costau yn seiliedig ar yr elastigedd, yn cael ei gorbwyso gan fanteision yr Ardoll.*

*Yn ogystal, mae angen ystyried y defnydd o'r Ardoll i ymwneud â chymorth i weithwyr sy'n dod i mewn i'r sector am gyflogaeth.*

### Pobl anabl

Amlinellodd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb Ardoll 2025 Llywodraeth Cymru, mewn perthynas â gweithgarwch twristiaeth, amcangyfrifir bod 28% o'r holl deithiau i Gymru yn cynnwys rhywun sy'n anabl neu sydd ag amhariad, sy'n uwch na theithiau i Brydain Fawr gyfan. Amcangyfrifwyd bod 1.71m o deithiau dros nos i Gymru rhwng mis Ionawr a mis Rhagfyr 2023 gan y rheini sy'n gofalu am bobl â chyflyrau meddygol, sy'n cyfateb i 20% o gyfanswm y teithiau a wnaed i Gymru.

Mae tystiolaeth hanesyddol yn awgrymu mewn rhai sefyllfaoedd y gall pobl anabl wynebu costau uwch ar gyfer aros mewn llety ymwelwyr. Mae pobl anabl hefyd yn wynebu nifer o rwystrau a heriau sy'n ymwneud ag ymweliadau twristiaid, gan gynnwys:

- Rhwystrau amgylcheddol: Mae adroddiad ymchwil Arolwg Anabledd y DU 2021/22 yn ddadansoddiad cynhwysfawr o ymatebion i Arolwg Anabledd y DU 2021 a ddangosodd fod 57% o bobl anabl wedi dweud nad oeddent yn gallu mynd ar wyliau oherwydd problemau hygrychedd, h.y. mynediad i adeiladau cyhoeddus;
- Diffyg gwybodaeth ac ymwybyddiaeth am argaeledd ac ansawdd cyfleusterau a gwasanaethau twristiaeth hygrych, a hawliau pobl anabl fel twristiaid. Mae gwybodaeth am gyrchfannau hygrych yn ffactor allweddol wrth gynyddu cyfleoedd twristiaeth ymhlith unigolion anabl; a
- Gall archebu gwyliau arwain at gostau ychwanegol oherwydd diffyg argaeledd opsiynau llety a thrafnidiaeth hygrych a fforddiadwy, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig ac anghysbell, ac yn ystod y tymhorau brig. Mewn arolwg diweddar gan Leonard Chesire Disability, a gyhoeddwyd yn Enable Magazine, dywedodd 8 o bob 10 o bobl anabl eu bod yn wynebu rhwystrau ac anawsterau aros mewn gwestai a chyrchfannau yn y DU. Nododd dros 70% broblemau wrth ddod o hyd i ystafelloedd hygrych. Mae costau llety hygrych hefyd yn rhwystr cyffredin i gymryd seibiant i tua 6 o bob 10 o ymatebwyr yr arolwg, gydag ystafelloedd hygrych yn aml yn cael eu hystyried yn ddrutach.

Mae hyn yn awgrymu y gallai defnydd posib ar gyfer yr Ardoll gefnogi cyrchfan fwy hygrych yng Nghaerdydd. Ar y llaw arall, gallai cost ychwanegol yr Ardoll roi straen ychwanegol ar gyllidebau teithio.

Wrth lunio Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb Llywodraeth Cymru o'r Ardoll, cyfarfu swyddogion hefyd â chynrychiolwyr o Anabledd Cymru, Autistic UK a Thriniaeth Deg i Fenywod Cymru. Er eu bod yn gefnogol i'r ffaith y byddai'r ardoll yn codi arian ychwanegol i'w wario yn yr ardal leol, mynegwyd pryderon amrywiol. Er enghraifft, pryderon y gallai'r ardoll effeithio'n anghymesur ar bobl anabl, oherwydd y costau cynyddol, gan eu bod yn fwy tebygol o fynd ar wyliau'n lleol ac angen ystafelloedd hygrych drutach.

Nododd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb Llywodraeth Cymru o'r Ardoll y gallai cymhwyso ardoll ymwelwyr i ofalwyr sy'n hebrwng person anabl, sydd angen gofal fel rhan o'i ymweliad,

gael ei ddehongli fel gwahaniaethu anuniongyrchol. Mae hyn oherwydd y byddai pobl anabl sydd angen gofalwr, o bosib, yn wynebu costau ychwanegol oherwydd yr ardoll sy'n berthnasol i'r gofalwr, pe bai'r person anabl yn wynebu'r costau ychwanegol hynny.

Mewn ymateb i hyn, ac ar ôl ystyried yn briodol, argymhellwyd opsiwn oedd yn caniatáu i ACC gyflwyno ad-daliadau i berson anabl sy'n derbyn budd-dal anabledd cymwys, sydd wedi talu ardoll ymwelwyr wrth aros mewn llety ymwelwyr, ac sy'n cael ei hebrwng gan berson sy'n darparu gofal, cefnogaeth neu gymorth. Er nad yw'r opsiwn hwn yn dileu'r risgiau o wahaniaethu anuniongyrchol yn llawn, ystyriwyd ei fod yn ymateb cymesur sy'n cydbwysu'r angen i fynd i'r afael â'r gwahaniaethu anuniongyrchol, ond sydd hefyd yn sicrhau uniondeb ac effeithlonrwydd y system dreth.

Mae Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb Llywodraeth Cymru ar yr Ardoll yn nodi y bydd yr Ardoll yn cael ei chasglu a'i rheoli gan ACC. Rhagwelir y bydd gweithrediad dyddiol yr ardoll yn cael effaith fach iawn ar berchnogion busnes sydd ag amhariadau ar eu golwg a/neu eu clyw oherwydd yr amryw ffyrdd y gall person ryngweithio ag ACC (a'u systemau). Bydd system ddigidol ar gyfer ffeilio a dychwelyd ffurflenni i ACC, ochr yn ochr â darparu gwasanaeth ffôn a phapur, pan fo angen. Bydd safonau gwasanaeth ACC yn sicrhau hygyrchedd – mae'r egwyddorion ar gyfer dylunio a chreu cynnyrch llyw.cymru yn cynnwys egwyddor ar gyfer sicrhau bod eu cynnyrch yn hygyrch i bawb, a'u bod mor gynhwysol â phosib. Y bwriad yw y bydd offer newydd yn cael eu creu gan dîm digidol ACC, a fyddai'n cael eu profi i weld a ydynt yn cydymffurfio â'r safonau a'r egwyddorion hyn (gan gynnwys hygyrchedd).

Nododd Asesiad o'r Effaith Llywodraeth Cymru hefyd nad yw'n disgwyl y bydd yr ardoll yn effeithio'n negyddol ar ddarparwyr llety ymwelwyr anabl, gan gynnwys pobl ag amhariadau dysgu, trwy gynnig gwasanaethau pwrpasol a gynigir gan ACC yn unol â'r Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus gyffredinol.

Nododd yr ymgynghoriad fod mwyafrif yn cefnogi'r Ardoll ar gyfer pobl anabl, er ar lefel is na'r gyfradd ymateb gyffredinol. Fodd bynnag, roedd dadansoddiad o sylwadau gan y rhai a nodwyd yn anabl yn adlewyrchu'r ymatebion cyffredinol, ac nid oedd yn ymwneud ag unrhyw faterion penodol sy'n ymwneud ag anabledau. Dylid nodi, fodd bynnag, bod materion wedi'u codi mewn perthynas â'r broses ad-dalu ar gyfer gofalwyr. Ystyriwyd bod hyn yn rhy fiwrocraidaidd gyda photensial i achosi gwrthdaro. Felly, ystyriwyd bod yn briodol gweithio gydag Awdurdod Refeniw Cymru i ystyried ffyrdd o symleiddio'r broses.

### **Graddiwch eich lefel o gefnogaeth i gyflwyno ardoll ymwelwyr yng Nghaerdydd o 0-10, lle mae 0 yn llwyr yn erbyn ac 10 yn llwyr o blaid.**

Ydych chi'n uniaethu fel person anabl? Atebodd 'ydw'

O blaid (6-10)	54%
Niwtral (5)	9%
Yn erbyn (0-4)	37%

Roedd sylwadau penodol a ddarparwyd fel rhan o'r ymarfer ymgynghori yn nodi materion ynghylch hygyrchedd corfforol yng Nghaerdydd ac awgrymodd y posibilrwydd o ddefnyddio'r ardoll i gefnogi meysydd fel:

- Gwell mynediad i'r anabl ledled y ddinas.
- Palmentydd yn rhydd o rwystrau, arwynebau wedi'u cynnal a'u cadw'n dda, a llwybrau cerddwyr mwy diogel.

- Toiledau cyhoeddus hygyrch, gan gynnwys mwy o leoliadau a gwell cynnal a chadw.
- Uwchraddiadau trafnidiaeth sy'n ystyried anghenion symudedd - bysiau dibynadwy, llwybrau hygyrch i safleoedd twristiaeth, a gwell cysylltedd.

Mynegwyd hefyd y gallai pobl anabl sydd ag incwm is neu sy'n dibynnu ar lety rhatach (hosteli, gwerysilloedd) gael eu heffeithio'n anghymesur gan ardoll fesul person.

Nid oedd llawer o'r sylwadau yn ymwneud yn benodol â'r defnydd o'r ardoll, ond fe'u hystyriwyd yn faterion pwysig ar gyfer economi ymwelwyr gyffredinol y ddinas, gan gynnwys y rhain:

- Sicrhau bod prosiectau a ariennir gan yr ardoll yn cydymffurfio â'r Ddeddf Cydraddoldeb a'r Rheoliadau Hygyrch (2018).
- Dylunio'r ddinas fel ei bod yn groesawgar ac yn hawdd ei llywio i bobl anabl.
- Gan gynnwys ystyriaethau hygyrchedd wrth gynllunio digwyddiadau, rheoli torfeydd a dylunio mannau cyhoeddus.

Nodwyd hefyd bod preswylwyr anabl yn cael eu heffeithio'n arbennig pan fydd digwyddiadau yn achosi tarfu ar wasanaethau, palmentydd wedi'u blocio, neu drafnidiaeth anhygyrch.

Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylai unrhyw ddefnydd o refeniw ardoll flaenoriaethu lleihau'r effeithiau hyn ar breswylwyr anabl.

#### *Prif ystyriaethau:*

*Mae effaith anghymesur posib ar bobl anabl o ystyried bod cyfran uwch o ymwelwyr â Chymru yn cael eu cydnabod yn anabl. Yn ogystal, cydnabyddir hefyd y gallai'r Ardoll ychwanegol ddwysáu pwysau cyllidebau teithio. Ar y llaw arall, mae potensial ar gyfer manteision sylweddol o fuddsoddi mewn gweithgarwch sy'n gwella hygyrchedd i seilwaith twristiaeth yng Nghaerdydd.*

*Cydnabuwyd y gellid ystyried costau ychwanegol i ofalwyr sy'n hebrwng person anabl fel gwahaniaethu anuniongyrchol, ond mae hyn wedi'i liniaru drwy gyflwyno ad-daliadau i berson anabl sy'n derbyn budd-dal anabledd cymwys, sydd wedi talu ardoll ymwelwyr wrth aros dros nos mewn llety ymwelwyr, ac sy'n cael ei hebrwng gan berson sy'n darparu gofal, cefnogaeth neu gymorth.*

*Nododd Asesiad o'r Effaith Llywodraeth Cymru hefyd nad yw'n disgwyl y bydd yr ardoll yn effeithio'n negyddol ar ddarparwyr llety ymwelwyr anabl, gan gynnwys pobl ag amhariadau dysgu.*

*Nododd yr ymarfer ymgynghori y byddai angen gwneud gwaith pellach gydag Awdurdod Refeniw Cymru i adolygu sut mae'r ad-daliad ar gyfer gofalwyr pobl anabl yn cael ei reoli a'i gymhwysu.*

#### *Crefydd, cred neu ddiffyg cred*

Mae Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb Llywodraeth Cymru o'r Ardoll yn nodi nad oes cydberthynas uniongyrchol rhwng ardollau ymwelwyr a chrefydd, cred neu ddiffyg cred. Gallai polisïau neu drethi sy'n gysylltiedig â thwristiaeth ryngweithio â rhyddid unigolyn i ymarfer crefydd, yn dibynnu ar natur yr ymweliad. Nododd y gallai cyflwyno ardoll ymwelwyr effeithio ar fforddiadwyedd ymweld â lleoedd o'r fath, gan ddylanwadu o bosib ar nifer y pererinion neu dwristiaid sy'n ymweld â safleoedd crefyddol. Er enghraifft, pe bai'r ymweliad yn golygu aros dros nos mewn llety ymwelwyr, byddai cost uwch ar gyfer yr arhosiad. Pe bai'r arhosiad dros nos mewn llety yn cael ei ddarparu am ddim, yna ni fyddai'r ardoll yn berthnasol.

Wrth ymgymryd â'r gwaith hwn, cyfarfu swyddogion Llywodraeth Cymru â Chyngor Rhyng-ffydd Cymru yn 2023, a derbyniodd ymateb hefyd i gais pellach am adborth ym mis Mehefin 2024 trwy eu cynrychiolaeth yng Ngrŵp Partneriaeth y Trydydd Sector. Gwnaethant dynnu sylw at y ffaith bod grwpiau ffydd yn aml yn trefnu teithiau gwersylla i deuluoedd, pobl ifanc, a phererinion. Gwnaethant groesawu'r ffaith na fyddai'r ardoll yn berthnasol i lety sydd am ddim, ac ychwanegodd y byddai hynny'n lleddfu pryderon gan grwpiau ffydd. Bydd yr ardoll yn berthnasol i arosiadau mewn llety ymwelwyr dros nos gan gynnwys safleoedd gwersylla a charafanau, er y bydd yr ardoll yn cael ei chymhwyso ar gyfradd is i liniaru'r effeithiau negyddol posib.

Nid oedd unrhyw faterion penodol a ddaeth i'r amlwg o'r ymarfer ymgynghori yn ymwneud â chrefydd.

#### *Prif ystyriaethau:*

*Yn seiliedig ar y gwaith a wnaed gan Lywodraeth Cymru, yn ogystal â natur Ardoll sy'n cael ei chyflwyno yng Nghaerdydd, nid oes unrhyw effaith gadarnhaol neu negyddol sylweddol yn gysylltiedig â chrefydd, cred neu ddiffyg cred.*

#### Rhyw

Mae'r darpariaethau yn y Ddeddf yn berthnasol i bob ymwelydd sy'n aros dros nos mewn llety ymwelwyr nad yw'n fan preswyl arferol, ac nid ydynt yn gwahaniaethu ar sail rhywedd. Fodd bynnag, mae Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb Llywodraeth Cymru o'r Ardoll yn nodi bod astudiaethau hefyd wedi adrodd bod dynion yn fwy parod i dalu ardoll ymwelwyr, sy'n awgrymu y gallai fod effaith fwy negyddol ar fenywod.

O ran cyflogaeth, mae Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb Llywodraeth Cymru o ddinasoedd yr Ardoll ar draws Ewrop yn dangos bod menywod yn fwy tebygol o gael eu cyflogi yn y sector twristiaeth. Fodd bynnag, mae data Cyfrifiad Caerdydd yn dangos bod cyflogaeth mewn dosbarthu, gwestai a bwytai (sy'n cynnwys cyflogaeth manwerthu) yn sylweddol uwch i ddynion.

#### **Cyflogaeth yn ôl Rhywedd**

<b>Cyfanswm</b>	<b>Cyflogaeth mewn dosbarthu, gwestai a bwytai</b>
<b>Pob Person</b>	29,551
<b>Benyw</b>	13,498
<b>Gwryw</b>	16,053

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2021

Roedd lefelau cyffredinol y gefnogaeth i'r Ardoll ychydig yn uwch yn yr arolwg ar gyfer menywod nag ar gyfer dynion, gyda'r ddau grŵp yn dangos cefnogaeth gadarnhaol i'r Ardoll.

Roedd nifer o ymatebwyr i'r ymgynghoriad hefyd yn cysylltu'r ardoll â heriau fforddiadwyedd, yn enwedig i deuluoedd. Gall menywod - sy'n ymdrin yn anghymesur â chyfrifoldebau cyllidebu teuluol, gofalu a chynllunio teithiau - brofi baich ardoll fesul person yn fwy llym, yn enwedig mewn aelwydydd incwm is neu wrth deithio gyda phlant.

Codwyd pryderon hefyd am strategaeth bresennol Caerdydd i ymwelwyr a digwyddiadau yn canolbwyntio'n ormod ar ddigwyddiadau chwaraeon mawr, sy'n cael eu dominyddu gan ddynion. Dadleuodd rhai ymatebwyr y byddai rhaglenni diwylliannol mwy amrywiol yn gwneud Caerdydd yn fwy croesawgar i ddemograffeg ehangach, gan gynnwys menywod a theuluoedd. Awgrymwyd ariannu digwyddiadau llai, amrywiol, cefnogi gweithgareddau celfyddydol a

threftadaeth, a buddsoddi mewn mannau sy'n teimlo'n gynhwysol ac yn ddiogel. Mae hyn yn adlewyrchu awydd i sicrhau nad yw hunaniaeth y ddinas yn cael ei llunio'n unig o amgylch chwaraeon mawr ac adloniant gyda'r nos, ond yn hytrach ei bod yn darparu ar gyfer profiadau cynhwysol, sy'n gyfeillgar i deuluoedd, ac sy'n amrywiol yn ddiwylliannol - meysydd lle mae menywod yn chwarae rhan arwyddocaol fel cyfranogwyr a threfnwyr.

*Prif ystyriaethau:*

*Yn seiliedig ar y gwaith a wnaed gan Lywodraeth Cymru, yn ogystal â data lleol, nid ystyrir unrhyw effaith sylweddol benodol yn ôl rhywedd.*

#### Ailbennu Rhywedd

Mae Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb Llywodraeth Cymru o'r Ardoll yn nodi bod darpariaethau yn y Ddeddf yn berthnasol i bob ymwelydd sy'n aros dros nos mewn llety ymwelwyr nad yw'n fan preswyl arferol, ac nad ydynt yn gwneud unrhyw wahaniaeth ar sail ailbennu rhywedd. Mae ystyriaeth wedi'i rhoi yn y Ddeddf i'r rheini sydd angen triniaeth feddygol, er enghraifft, fel rhan o broses ailbennu rhywedd person. Mae arosiadau mewn ysbytai preifat y tu allan i gwmpas y ddeddfwriaeth.

Nid oedd unrhyw faterion penodol wedi'u nodi yn yr ymarfer ymgynghori yn ymwneud ag ailbennu rhywedd.

*Prif ystyriaethau:*

*Yn seiliedig ar y gwaith a wnaed gan Lywodraeth Cymru, yn ogystal â data lleol, nid ystyrir unrhyw effaith sylweddol benodol yn ôl rhywedd.*

#### Beichiogrwydd a Mamolaeth

Mae'r darpariaethau yn y Ddeddf yn berthnasol i bob ymwelydd sy'n aros dros nos mewn llety ymwelwyr nad yw'n fan preswyl arferol, ac nid ydynt yn gwahaniaethu ar sail beichiogrwydd a mamolaeth.

Nid oedd unrhyw faterion penodol wedi'u nodi yn yr ymarfer ymgynghori yn ymwneud â beichiogrwydd.

*Prif ystyriaethau:*

*Nid ystyrir unrhyw effaith sylweddol benodol yn ymwneud â beichiogrwydd a mamolaeth.*

#### Cyfeiriadedd rhywiol

Mae Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb Llywodraeth Cymru o'r Ardoll yn nodi bod darpariaethau yn y Ddeddf yn berthnasol i bob ymwelydd sy'n aros dros nos mewn llety ymwelwyr nad yw'n fan preswyl arferol, ac nid ydynt yn gwahaniaethu ar sail cyfeiriadedd rhywiol. Mae'r dystiolaeth yn tynnu sylw at y ffaith bod 9% o deithiau i Gymru wedi'u gwneud gan ymwelwyr lesbiaidd, hoyw a deurywiol rhwng mis Ionawr a mis Rhagfyr 2023. Fodd bynnag, nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu y byddai ymwelwyr â'r nodwedd cyfeiriadedd rhywiol dan anfantais drwy'r darpariaethau yn y Ddeddf.

Mae dadansoddiad cyflogaeth yn awgrymu y gallai'r Ardoll effeithio ar gyfran uwch o bobl ddeurywiol. Byddai'r effaith hon yn dibynnu ar yr effaith gyffredinol y byddai'r Ardoll yn ei chael ar yr economi.

### Cyflogaeth yn ôl Cyfeiriadedd Rhywiol

	Cyfanswm	Syth neu Heterorywiol	Hoyw neu Lesbiaidd	Deurywiol	Pob cyfeiriadedd rhywiol arall	Heb ateb
<b>Amaethyddiaeth, ynni a dŵr</b>	2%	2%	2%	1%	1%	1%
<b>Gweithgynhyrchu</b>	4%	5%	2%	2%	3%	4%
<b>Adeiladu</b>	6%	6%	2%	1%	2%	5%
<b>Dosbarthu, gwestai a bwytai</b>	18%	18%	18%	24%	19%	22%
<b>Trafnidiaeth a chyfathrebu</b>	8%	8%	9%	8%	8%	9%
<b>Gweithgareddau ariannol, eiddo tirol, proffesiynol a gweinyddol</b>	18%	18%	19%	17%	18%	16%
<b>Gweinyddiaeth gyhoeddus, addysg ac iechyd</b>	39%	39%	42%	40%	37%	37%
<b>Arall</b>	5%	5%	7%	7%	11%	5%

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2021

Nid oedd unrhyw faterion penodol wedi'u nodi yn yr ymarfer ymgynghori yn ymwneud â chyfeiriadedd rhywiol.

#### *Prif ystyriaethau:*

*Nid ystyrir unrhyw effaith sylweddol benodol yn ymwneud â chyfeiriadedd rhywiol ymwelwyr. Fodd bynnag, dylid nodi bod cyfran uwch o weithwyr deurywiol yn cael eu cyflogi yn y sector dosbarthu, gwestai a bwytai. Mae hyn yn awgrymu, i weithwyr deurywiol, ei bod yn hanfodol defnyddio'r Ardoll i sicrhau bod y sector yn tyfu, ac nad yw'n arwain at unrhyw effaith negyddol ar weithwyr lleol.*

#### *Priodas a phartneriaeth sifil*

Ni ddisgwylir i'r darpariaethau yn y Ddeddf gael unrhyw effaith ar nodwedd priodas a phartneriaeth sifil. Byddai llety ymwelwyr dros nos sy'n ymwneud â phriodasau a seremonïau partneriaeth sifil yn destun ardoll ymwelwyr.

Nid oedd unrhyw faterion penodol wedi'u nodi yn yr ymarfer ymgynghori yn ymwneud â phriodas a phartneriaeth sifil.

#### *Prif ystyriaethau:*

*Nid ystyrir unrhyw effaith sylweddol benodol yn ymwneud â phriodas a phartneriaeth sifil.*

#### *Hil*

Mae Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb Llywodraeth Cymru o'r Ardoll yn nodi bod y darpariaethau yn y Ddeddf yn berthnasol i bob ymwelydd sy'n aros dros nos mewn llety ymwelwyr nad yw'n fan preswyl arferol, ac nid ydynt yn gwahaniaethu ar sail hil.

Gall effaith ardollau ymwelwyr ar hil amrywio yn dibynnu ar gyd-destunau penodol a dulliau gweithredu, a ble mae'r referniw a godir yn cael ei wario. Gellir cymryd mesurau rhagweithiol i

sicrhau bod manteision twristiaeth yn cael eu dosbarthu'n fwy teg ymysg pob rhan o'r boblogaeth, gydag ymgysylltu â'r gymuned a phrosesau gwneud penderfyniadau cynhwysol yn hanfodol i fynd i'r afael ag effeithiau negyddol posib ar grwpiau lleiafrifoedd ethnig.

Mae'r data sydd ar gael yn adroddiad twristiaeth dros nos Cymru 2023 yn nodi cyfanswm nifer y teithiau a chanran y teithiau yn ôl ethnigrwydd.

### Cyfanswm nifer a chanran y teithiau yn ôl ethnigrwydd (Cymru)

Ethnigrwydd yr ymatebwr	Teithiau (miliynau)	% Cyfanswm y Teithiau
Gwyn	7.09	84%
Grwpiau Cymysg/Aml-ethnig	0.25*	3%*
Asiaidd/Asiaidd Prydeinig	0.53*	6%*
Du/Affricanaidd/Caribiaidd/Du Prydeinig	0.37*	4%*
Tsieineaidd	0.05**	1%**
Arabaidd	0.08**	1%**
Grŵp ethnig arall	0.03**	0%**

Ffynhonnell: Ystadegau Twristiaeth Ddomestig Prydain Fawr: adroddiad blynyddol 2023

Sylwer: lle mae ffigur yn cael ei ddilyn gan un seren, mae'r maint sylfaen yn is na 100, a chynghorir defnyddwyr i drin y ffigur hwn fel un dangosol. Lle mae ffigur yn cael ei ddilyn gan seren ddwbl, mae'r maint sylfaen yn is na 30, a chynghorir defnyddwyr i beidio â defnyddio'r amcangyfrif hwn.

Mae data cyflogaeth yn tynnu sylw at y ffaith bod lefel anghymesur o gyflogaeth yng Nghaerdydd yn y sector dosbarthu, gwestai a bwytai ar gyfer y rheini sydd ag ethnigrwydd Asiaidd, Asiaidd Prydeinig neu Asiaidd Cymreig. Mae hyn yn awgrymu y byddai effaith yr Ardoll ar yr economi yn effeithio'n anghymesur ar y grwpiau hynny.

### Cyflogaeth yn ôl Ethnigrwydd

Diwydiant (presennol)	Cyfanswm	Asiaidd, Asiaidd Prydeinig neu Asiaidd Cymreig	Du, Du Prydeinig, Du Cymreig, Caribiaidd neu Affricanaidd	Grwpiau cymysg neu aml-ethnig	Gwyn	Grŵp ethnig arall...
<b>Cyfanswm</b>	100%	100%	100%	100%	100%	100%
<b>Amaethyddiaeth, ynni a dŵr</b>	2%	1%	2%	2%	2%	1%
<b>Gweithgynhyrchu</b>	4%	4%	4%	4%	5%	5%
<b>Adeiladu</b>	6%	2%	3%	5%	6%	4%
<b>Dosbarthu, gwestai a bwytai</b>	18%	26%	16%	20%	18%	24%
<b>Trafnidiaeth a chyfathrebu</b>	8%	13%	12%	8%	8%	10%
<b>Gweithgareddau ariannol, eiddo tirol, proffesiynol a gweinyddol</b>	18%	15%	19%	18%	18%	15%

<b>Gweinyddiaeth gyhoeddus, addysg ac iechyd</b>	39%	37%	41%	38%	39%	37%
<b>Arall</b>	5%	3%	4%	6%	5%	4%

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2021

Nododd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb Llywodraeth Cymru o'r Ardoll hefyd fod ffordd o fyw Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn ei hanfod yn grwydrol, ac yn cynnwys symud rheolaidd ar draws ffiniau awdurdodau lleol. Gan adlewyrchu hyn, cyfarfu swyddogion Llywodraeth Cymru â Thros Gynnal Plant Cymru i archwilio materion sy'n ymwneud â'r ardoll i Sipsiwn, Roma a Theithwyr. O drafodaethau, nodwyd pe bai'r safleoedd parhaol a dros dro dynodedig yn cael eu heithrio rhag talu'r ardoll, yna byddai'n annhebygol y byddai effaith sylweddol ar Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Nododd hefyd fod safleoedd Sipsiwn, Roma a Theithwyr sy'n cael eu darparu gan awdurdod lleol neu landlord cymdeithasol cofrestredig wedi'u heithrio rhag yr ardoll. Mae hyn yn adlewyrchu pwysigrwydd diogelu eu ffordd o fyw nodedig a chrwydrol.

Er gwaethaf hyn, mae'r Ddeddf yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru greu eithriadau cenedlaethol newydd pe bai tystiolaeth o effaith negyddol ar unrhyw grŵp penodol.

Roedd cyfeiriadau uniongyrchol at ethnigrwydd yn yr ymateb i'r ymgynghoriad yn gyfyngedig, ond mae sawl cyflwyniad yn gofyn i Gaerdydd gynllunio ar gyfer amrywiaeth cynulleidfaoedd gan enwi ethnigrwydd lleiafrifol yn benodol wrth lunio digwyddiadau a'r cynnig ehangach i ymwelwyr. Codwyd yr angen am gynrychiolaeth briodol hefyd.

*Prif ystyriaethau:*

*Cydnabyddir bod cyfran uwch o gyflogaeth yn y sector ar gyfer rhai grwpiau ethnig. Mae hyn yn awgrymu ei bod yn hanfodol bod yr Ardoll yn cael ei defnyddio i sicrhau bod y sector yn tyfu, ac nad yw'n arwain at unrhyw effaith negyddol ar weithwyr lleol.*

*Yn ogystal, tynnwyd sylw at yr ymgynghoriad y dylai'r defnydd o'r Ardoll hefyd fod yn gynrychioliadol o boblogaethau amrywiol y ddinas.*

**Asesu'r Effaith ar Grwpiau sy'n Rhannu Nodwedd Warchoddedig - Crynodeb**

Nodwedd Warchoddedig	Ticiwch o leiaf un effaith ar gyfer pob grŵp			Y dystiolaeth a'r ffynhonnell ddata a ddefnyddiwyd i nodi'r effaith neu'r diffyg effaith.	Manylion yr effaith debygol.	Ar gyfer effeithiau negyddol, rhaid i chi ystyried sut i leihau neu gael gwared ar yr effaith.
	Effaith bositif	Effaith negyddol	Dim			
<b>OEDRAN</b>	x	x		Deddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025 - Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb  Dadansoddiad o'r Cyfrifiad  Ymgynghoriad Ardoll Ymwelwyr	Effaith gadarnhaol debygol yn seiliedig ar effaith arfaethedig y polisi.  Codwyd materion penodol yn ymwneud â phlant y codir ffi Ardoll arnynt.	Mae'n hanfodol bod cyflwyno'r Ardoll yn cefnogi twf yr economi ymwelwyr. Byddai hyn yn lliniaru unrhyw effaith negyddol.  Byddai sylwadau yn cael eu gwneud ar y potensial i ddiwygio'r tâl ar gyfer plant.
<b>ANABLEDD</b>	x	x		Deddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025 - Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb  Dadansoddiad o'r Cyfrifiad  Ymgynghoriad Ardoll Ymwelwyr	Potensial ar gyfer effaith o ran materion cyllidebol i'r bobl anabl hynny.  Potensial ar gyfer gwell hygrychedd os caiff ei gefnogi drwy fuddsoddiad yr Ardoll.  Pryderon a godwyd yn ymwneud â'r mecanwaith ad-dalu ar gyfer gofalwyr.	Ystyried y defnydd o'r Ardoll i sicrhau bod buddion yn cael eu derbyn gan bobl anabl.  Angen sicrhau bod yr ad-daliad i ofalwyr cymorth yn cael ei gyfathrebu ac y manteisir arno.  Byddai sylwadau yn cael eu gwneud ar y posibilrwydd i ad-dalu mecanwaith gofalwyr.
<b>AILBENNUN RHYWEDD</b>			x	Deddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025 - Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb  Ymgynghoriad Ardoll Ymwelwyr	Ni ddisgwyllir unrhyw effaith	Ni ddisgwyllir unrhyw effaith
<b>HIL</b>	x	x		Deddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025 - Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb  Dadansoddiad o'r Cyfrifiad  Ymgynghoriad Ardoll Ymwelwyr	Cydnabyddir bod cyfran uwch o gyflogaeth yn y sector ar gyfer rhai grwpiau ethnig. Mae hyn yn debygol o fod yn gadarnhaol yn seiliedig ar fwiad y polisi.  Pryderon a godwyd mewn perthynas â chynrychiolaeth.	Mae hyn yn awgrymu ei bod yn hanfodol bod yr Ardoll yn cael ei defnyddio i sicrhau bod y sector yn tyfu, ac nad yw'n arwain at unrhyw effaith negyddol ar weithwyr lleol.  Byddai angen i lywodraethu hefyd gynnwys yr angen am gynrychiolaeth, ymgynghori ac ymgysylltu â grwpiau lleiafrifoedd ethnig yn y broses o wneud penderfyniadau.
<b>CREFYDD, CRED NEU DDIFFYG CRED</b>			x	Deddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025 - Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb  Ymgynghoriad Ardoll Ymwelwyr	Ni ddisgwyllir unrhyw effaith	Ni ddisgwyllir unrhyw effaith
<b>RHYW</b>			x	Deddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025 - Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb  Ymgynghoriad Ardoll Ymwelwyr	Ni ddisgwyllir unrhyw effaith  Pryderon a godwyd mewn perthynas â chynrychiolaeth.	Ni ddisgwyllir unrhyw effaith  Byddai angen i lywodraethu hefyd gynnwys yr angen am gynrychiolaeth, ymgynghori ac ymgysylltu mewn perthynas â rhywedd yn y broses gwneud penderfyniadau.
<b>CYFEIRIADEDD RHYWIOL</b>	x	x		Deddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025 - Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb  Dadansoddiad o'r Cyfrifiad	Nid ystyrir unrhyw effaith sylweddol benodol yn ymwneud â chyfeiriadedd rhywiol ymwelwyr. Fodd bynnag, dylid nodi bod cyfran uwch o weithwyr deurywiol yn cael eu	Mae hyn yn awgrymu, i weithwyr deurywiol, ei bod yn hanfodol defnyddio'r Ardoll i sicrhau bod y sector yn tyfu, ac nad yw'n arwain at unrhyw effaith negyddol ar weithwyr lleol.

				Ymgynghoriad Ardoll Ymwelwyr	cyflogi yn y sector dosbarthu, gwestai a bwytai.	
<b>PRIODAS A PHARTNERIAETH SIFIL</b>			x	Deddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025 - Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb  Ymgynghoriad Ardoll Ymwelwyr	Ni ddisgwyliir unrhyw effaith	Ni ddisgwyliir unrhyw effaith
<b>BEICHOGRWYDD A MAMOLAETH</b>			x	Deddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025 - Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb  Ymgynghoriad Ardoll Ymwelwyr	Ni ddisgwyliir unrhyw effaith	Ni ddisgwyliir unrhyw effaith

## 12. Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant

### Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant - Deddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025

Canfu Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant, Deddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) ac ati (Cymru) 2025 nad yw'r effaith gyffredinol ar Hawliau Plant yn sylweddol ac yn gyffredinol gadarnhaol. Mae hyn oherwydd bod refeniwiau ychwanegol wedi'u creu, y gallai awdurdodau lleol eu defnyddio i wella'r cynnig twristiaeth yn eu hardal. Bydd refeniwiau yn cael eu defnyddio i wella ystod o amwynderau a fydd o fudd i drigolion ac ymwelwyr.

Nododd yr asesiad hefyd, er mai ffocws y Ddeddf yw caniatáu i awdurdodau lleol gyflwyno ardoll ymwelwyr yn eu hardal, gallai canlyniad penderfyniad i gyflwyno ardoll gael effaith ar blant a phobl ifanc, yn enwedig y rheini o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is oherwydd yr ardoll ychwanegol sydd i'w thalu gan ymwelwyr. Mae'n nodi, mewn ymateb i liniaru/neu leihau unrhyw effeithiau negyddol, ac er mwyn sicrhau bod lefel o gynnydd yn cael ei chyflawni fel nad yw'r rheini ar incwm is yn methu neu'n cael eu cymell i beidio â thalu'r costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r ardoll, bod dwy gyfradd wedi'u nodi yn y Ddeddf, cyfradd is ar gyfer hosteli a safleoedd gwerysyla a chyfradd uwch ar gyfer pob llety arall.

Yn ogystal, nid yw'r rheini dan 18 oed i'w cynnwys yn y tâl cyfrifadwy ar gyfer yr ardoll ymwelwyr ar gyfer arosiadau â sgôr is. Bydd hyn yn lliniaru unrhyw effeithiau negyddol posib ar blant a phobl ifanc gan fod llawer o deithiau ysgol, teithiau sgowtiaid ac ati yn cael eu cynnal mewn llety fel safleoedd gwerysyla a hosteli.

Mae gan Weinidogion Cymru'r pŵer i adolygu'r cyfraddau ardoll ymwelwyr a nodir mewn deddfwriaeth. Ar ben hynny, gall Gweinidogion ddiwygio pa arosiadau sy'n ddarostyngedig i ba gyfradd, h.y. cyfradd is neu uwch pe bai tystiolaeth yn dod i'r amlwg o unrhyw effaith anghymesur.

Bydd gan Weinidogion Cymru hefyd y pŵer, drwy reoliadau, i dynnu categorïau eraill o bersonau o'r tâl ardoll ymwelwyr cyfrifadwy, pe bai tystiolaeth yn dod i'r amlwg o effeithiau negyddol ar grŵp penodol sy'n cyfiawnhau'r penderfyniad hwnnw.

Dylid nodi bod nifer o ymatebion ymgynghorwyr wedi codi pryderon y bydd plant yn codi swm llawn yr Ardoll ar gyfer y mwyafrif o arosiadau yn y ddinas. Roedd darparwyr llety yn arbennig o sensitif i'r mater enw da sy'n ymwneud â chodi tâl ar blant.

## 13. Effaith ar y Gymraeg

Mae potensial i'r ardoll hyrwyddo diwylliant Cymru, gan gynnwys y Gymraeg. Mae hyn hefyd yn cysylltu'n uniongyrchol â chyfran y siaradwyr Cymraeg yn ôl sector. Er bod hyn yn gymharol isel ar gyfer y sectorau llety a lletygarwch, mae gorgynrychiolaeth yn y sector 'Arall' sy'n cynnwys celfyddydau, adloniant a hamdden, y byddai disgwyl iddo weld budd o'r ardoll.

### Cyflogaeth yn ôl Sector 2021

Diwydiant (presennol)	Cyfanswm	Methu siarad Cymraeg	Gallu siarad Cymraeg	% Siaradwyr Cymraeg yn ôl sector
<b>Cyfanswm</b>	160,440	142,191	18,249	11%
<b>Amaethyddiaeth, ynni a dŵr</b>	2,909	2,641	268	9%
<b>Gweithgynhyrchu</b>	7,141	6,699	442	6%
<b>Adeiladu</b>	9,206	8,559	647	7%
<b>Dosbarthu, gwestai a bwytai</b>	29,552	27,420	2,132	7%
<b>Trafnidiaeth a chyfathrebu</b>	13,362	11,636	1,726	13%
<b>Gweithgareddau ariannol, eiddo tirol, proffesiynol a gweinyddol</b>	28,319	25,431	2,888	10%
<b>Gweinyddiaeth gyhoeddus, addysg ac iechyd</b>	62,078	53,225	8,853	14%
<b>Arall</b>	7,873	6,580	1,293	16%

Ffynhonnell: Cyfrifiad

Cynhaliodd Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg Llywodraeth Cymru rywfaint o ymgynghori hefyd ynghylch yr Ardoll. Canfu hyn, er nad oedd gan y rhan fwyaf o'r ymatebwyr farn benodol ynglŷn ag effaith yr ardoll ymwelwyr ar y Gymraeg, mynegodd nifer fach o ymatebwyr bryder y gallai unrhyw ostyngiad mewn twristiaeth, o ganlyniad i ardoll, leihau cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, yn ogystal â chael effaith negyddol bosib ar gymunedau Cymraeg eu hiaith. Ar y llaw arall, tynnodd rhai ymatebwyr sylw at y ffaiht y gellid defnyddio refeniwiau a godir drwy ardoll i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg.

Nododd yr asesiad effaith hefyd fod yr ardoll yn anelu at hyrwyddo ymreolaeth awdurdodau lleol wrth wneud penderfyniadau ariannol. Bydd y refeniw yn cael ei neilltuo yn fras ar gyfer cefnogi'r gwaith o reoli cyrchfannau arloesol a chynaliadwy. Gellid cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg pe bai awdurdodau lleol yn defnyddio'r refeniw o'r ardoll i hyrwyddo a chefnogi'r Gymraeg, neu i ariannu mentrau sy'n gwella'r seilwaith a'r gwasanaethau mewn ardaloedd sydd â chanran gymharol uchel o siaradwyr Cymraeg ar hyn o bryd (neu sydd wedi bod â chanran uchel hyd at y degawdau diwethaf). Gallai hyn hyrwyddo gwelededd, bywiogrwydd a hyfywedd y Gymraeg, yn ogystal â chynyddu ymwybyddiaeth a gwerthfawrogiad ymwelwyr a thrigolion fel ei gilydd.

Sylwer bod yr Ardoll hon yn awgrymu'r ystod o feysydd y gellid defnyddio'r ardoll ar eu cyfer, a allai gwmpasu meysydd a fyddai'n cefnogi'r defnydd o'r Gymraeg.

Amlygodd yr arolwg hefyd fod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn credu na fyddai unrhyw effaith ar yr Iaith Gymraeg. O ran yr ardaloedd lle gallai fod o fudd i'r Gymraeg, roedd yr effeithiau cadarnhaol posibl yn canolbwyntio'n bennaf ar y potensial i gynyddu nifer yr ymwelwyr ac

amlygiad i'r iaith, a nododd llawer fod gweld a chlywed Cymraeg yn helpu ymwelwyr i werthfawrogi bod gan Gymru iaith, diwylliant a hunaniaeth unigryw. Pwysleisiodd rhai y gallai'r ardoll wneud Cymraeg yn "weladwy iawn" mewn marchnata a digwyddiadau, gan gynyddu balchder ac ymwybyddiaeth ymhlith ymwelwyr a thrigolion.

Roedd yr ymatebwyr yn aml yn tynnu sylw at gyfleoedd i gefnogi digwyddiadau diwylliannol Cymraeg (e.e. yr Eisteddfod, yr Urdd, Tafwyl), artistiaid Cymreig, a gweithgareddau sy'n seiliedig ar dreftadaeth. Gwelodd eraill gyfle i gefnogi mentrau iaith Gymraeg.

Roedd llawer hefyd yn credu bod iaith a diwylliant Cymraeg yn rhan o'r hyn sy'n gwneud Caerdydd yn unigryw, gan gyfrannu at ymdeimlad cryfach o le a gwneud y ddinas yn fwy deniadol i ymwelwyr. Roedd y Gymraeg yn cael ei ystyried fel gwahaniaethydd wrth gystadlu â dinasoedd eraill y DU ac Ewrop.

Mae'r adborth negyddol yn canolbwyntio ar ofnau y bydd yr ardoll ymwelwyr yn lleihau twristiaeth, yn gwanhau'r economi, ac yn y pen draw yn niweidio'r Gymraeg trwy leihau amlygiad a lleihau cyfleoedd i'w defnyddio. Nid yw llawer yn gweld unrhyw dystiolaeth y byddai'r cynigion yn cefnogi'r Gymraeg, ac mae rhai'n mynegi rhwystredigaeth gyda dwyieithrwydd neu'n poeni y gallai disgwyliadau o ran y Gymraeg atal ymwelwyr ymhellach.

## 14. Aseiad Lles a Chenedlaethau'r Dyfodol

### **5 FFORDD O WEITHIO**

**Hirdymor** - Sut mae eich prosiect / gweithgaredd yn cydbwysu angen byrdymor ag angen hirdymor a chynllunio ar gyfer y dyfodol?

*Byddai cyflwyno Ardoll Ymwelwyr yn cefnogi mwy o ystyriaeth o gynllunio hirdymor. Yn benodol, mae bwriad defnyddio'r Ardoll yn seiliedig ar gefnogi cynaliadwyedd hirdymor yr economi ymwelwyr, gyda'r nod datganedig o gynyddu arosiadau ymwelwyr yn y ddinas. Mae'r defnydd o'r Ardoll i yrru hyn hefyd yn cefnogi meddwl hirdymor i'r graddau y mae'n darparu cymhellion ar gyfer gweithgareddau sy'n cefnogi twf y sector yn y dyfodol. Mae hyn yn cyd-fynd â'r rhagdybiaeth o sybsidiaredd mewn polisi cyllidol i annog penderfyniadau polisi sy'n cefnogi gweithgarwch sy'n cael effaith ariannol gadarnhaol.*

**Ataliad** - Sut mae eich prosiect / gweithgaredd yn rhoi adnoddau i atal problemau rhag digwydd neu waethygu?

*Gall cyflwyno'r ardoll gefnogi gwaith ataliol i gefnogi hyfywedd yr economi ymwelwyr. Mae hyn yn cynnwys buddsoddi mewn rheoli lleoedd a allai gynnwys wardeniaid canol y ddinas ychwanegol, sydd ar hyn o bryd yn gweithredu i ddarparu presenoldeb gweladwy ar y stryd, a mynd i'r afael â phroblemau fel ymddygiad gwrthgymdeithasol cyn iddynt waethygu. Oherwydd gweledigaeth hirdymor y cynnig mae'n annog gwaith ataliol, a gwaith arall sy'n cefnogi buddsoddiad yn y sector yn y dyfodol yn fwy cyffredinol.*

**Integreiddiad** - Sut mae eich prosiect / gweithgaredd yn cyflawni canlyniadau economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol gyda'i gilydd?

*Mae'r cynnig yn amlinellu'r meysydd gwariant y gallai'r ardoll eu cwmpasu, sy'n ymwneud yn benodol â chynlluniau economaidd, amgylcheddol a diwylliannol. Mae hyn yn cynnwys y potensial i gefnogi'r gwaith o greu swyddi a busnesau, gwelliannau amgylcheddol a chefnogi rhaglen ddigwyddiadau'r ddinas.*

**Cydweithio** - Sut mae eich prosiect / gweithgaredd yn cynnwys cydweithio â phartneriaid (mewnol ac allanol) i gyflawni amcanion lles?

*Bydd yr ardoll yn cael ei ategu gan y Fforwm Partneriaeth Ardoll Ymwelwyr. Byddai'r Fforwm Partneriaeth Ardoll Ymwelwyr yn chwarae nifer o rolau allweddol:*

- Cyngori ar y defnydd o'r Ardoll;
- Adolygu Adroddiad Blynyddol yr Ardoll;
- Cyngori ar ddatblygu Strategaeth Dwristiaeth y ddinas; a
- Chyngori ar roi Strategaeth Dwristiaeth y ddinas ar waith.

*Mae partneriaeth y Fforwm yn cynnwys ystod eang o randdeiliaid sy'n cynrychioli'r sector, yn ogystal â gwasanaethau cyhoeddus. Felly, bydd y Fforwm yn dylanwadu ar y defnydd o'r ardoll, a hefyd ar y strategaeth dwristiaeth ehangach ar gyfer y ddinas.*

**Cyfranogiad** - Sut mae eich prosiect / gweithgaredd yn cynnwys rhanddeiliaid sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau lles? Sut mae'r rhanddeiliaid hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal?

*Cynigir y byddai cyfathrebu rheolaidd yn adlewyrchu defnydd ac effaith yr Ardoll. Byddai hyn yn ceisio barn rhanddeiliaid allweddol i sicrhau ei heffeithiolrwydd a byddai hefyd yn cynnwys cyhoeddi adroddiad blynyddol. Wrth gyflwyno'r adroddiad blynyddol, byddai'r Cyngor yn dwyn data ansoddol a meintiol ynghyd a fyddai'n rhoi trosolwg o berfformiad yr economi ymwelwyr yn y ddinas. Byddai'r adolygiad hwn yn cynnwys dangosyddion perfformiad allweddol; data perfformiad prosiectau a rhaglenni penodol; arolwg ymwelwyr blynyddol i ddarparu manylion ar broffiliau a chanfyddiadau ymwelwyr; a gwybodaeth ansoddol a ddarperir gan y Fforwm Partneriaeth Ardoll Ymwelwyr. Wrth gyhoeddi Adroddiad Blynyddol,*

*byddai'r Cyngor hefyd yn ceisio ymgysylltu a chyfathrebu'n rheolaidd â rhanddeiliaid yn ogystal â thalwyr ardoll i gyfathrebu'r defnydd o'r Ardoll.*

## NODAU LLES

Disgrifiad o'r nodau lles	Sut bydd eich prosiect / gweithgaredd yn darparu manteision i'n cymunedau dan y nodau lles cenedlaethol?	A oes unrhyw ffordd i wneud yn fawr o'r buddion neu leihau unrhyw effeithiau negyddol i'n cymunedau?
<p><b>Cymru lewyrchus</b> - Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol a charbon isel sy'n cydnabod y cyfyngiadau ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau'n effeithlon ac yn gymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid hinsawdd), ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n creu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan alluogi pobl i fanteisio ar y cyfoeth a grëir trwy sicrhau gwaith boddhaol.</p>	<p>Byddai'r ardoll yn anelu at gefnogi dull cydgyhyrchu o gefnogi'r economi ymwelwyr yng Nghaerdydd. Fel rhan o hyn, gellid cyflwyno amrywiaeth o weithgareddau, o ddatblygu sgiliau i farchnata wedi'i dargedu, sy'n ceisio denu ymwelwyr ychwanegol gyda'r nod o ychwanegu gwerth i'r sector.</p>	<p>Sicrhau bod y sector yn ymwneud yn llawn â phrosesau gwneud penderfyniadau i wneud yn fawr o fanteision economaidd y defnydd o'r ardoll.</p>
<p><b>Cymru gydnerth</b> - Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid hinsawdd).</p>	<p>Bydd cefnogi datblygiad Caerdydd fel cyrchfan dwristiaeth yn helpu economi ymwelwyr fwy cynaliadwy yng Nghymru. Mae cysylltedd trafnidiaeth yn allweddol yma, o ystyried bod ôl troed carbon ymwelydd yn cael ei yrru bron yn gyfan gwbl gan y modd o gyrraedd y gyrchfan.</p>	<p>Sicrhau bod yr economi ymwelwyr yn cyd-fynd â thrafnidiaeth gyhoeddus.</p>
<p><b>Cymru iachach</b> - Cymdeithas lle mae lles corfforol a meddyliol pobl cystal â phosib, a lle deallir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol.</p>	<p>Mae gan yr ardoll y potensial i gefnogi economi fwyd leol ffyniannus trwy fwy o nawdd pe bai nifer yr ymwelwyr yn cynyddu.</p>	<p>Parhau i weithio gyda'r sector lletygarwch i hyrwyddo gwerthwyr a busnesau bwyd lleol.</p>
<p><b>Cymru fwy cyfartal</b> - Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd).</p>	<p>Byddai'r ardoll yn ceisio cefnogi cyflogaeth mewn ardal o Gymru gyda'r proffil poblogaeth mwyaf amrywiol. Mae hyn yn bwysig gan ei fod yn adlewyrchu un o'r unig offer polisi cenedlaethol a fyddai'n gweld cyllid yn canolbwyntio mewn meysydd amrywiaeth.</p>	<p>Sicrhau bod yr effeithiau'n cael eu dadansoddi yn barhaus ac yn llywio'r defnydd o'r ardoll yn y dyfodol.</p>
<p><b>Cymru o gymunedau cydlynol</b> -Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da.</p>	<p>Byddai'r ardoll yn ceisio cefnogi economi ymwelwyr gynaliadwy a hyfyw, wrth hefyd sicrhau bod cymorth ar gael i ymdrin ag effaith y sector ar gymunedau.</p>	<p>Ystyried defnyddio elfennau o'r ardoll i ymdrin ag effaith twristiaeth, megis digwyddiadau mawr.</p>
<p><b>Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu</b> - Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden.</p>	<p>Byddai'r ardoll o bosib yn cael ei defnyddio ar gyfer gweithgareddau diwylliannol a fyddai'n denu ymwelwyr. Mae hyn yn hanfodol, gan y bydd yn darparu cynaliadwyedd i'r sector trwy ddenu mwy o ymwelwyr ar gyfer digwyddiadau ac atyniadau diwylliannol.</p>	<p>Gweithio gyda'r sector diwylliannol i ddatblygu cynigion ar gyfer yr ardoll sydd o fudd i'r ddwy ochr â'r economi ymwelwyr gyffredinol.</p>
<p><b>Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang</b> - Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at les byd-eang.</p>	<p>Drwy ddenu mwy o ymwelwyr rhyngwladol, y gobaith yw y byddai'r ardoll yn cefnogi'r gwaith o arddangos Caerdydd a Chymru i'r byd.</p>	<p>Sicrhau bod yr ardoll yn cael ei defnyddio i ddenu mwy o ymwelwyr rhyngwladol.</p>